YR YMOFYNYDD.

RHIF. 39.] MAWRTH, 1862. [AIL GYFRES.

ADDOLIAD TEULUAIDD.

(Parhad o tudal. 31.)

"Gweddio: gwaith nid y genau ond y galon. Derchafiad y galon tuag at Dduw; derchafiad y llais neu'r lleferydd ar ol y galon. Nid yw gwaith y tafod ddim heb y galon, na gwaith y galon cystal heb ei ddatgan â'r lleferydd."—*D. Griffith, Esgob Llanelwy*, 1660.

YN y sylwadau a wnaed yn barod ymofynwyd pa beth a allasai fod wedi arwain i ryw gymaint o esgeulusdod o ddefosiwn cyhoeddus yn ein plith. Cyfeiriwyd yn benaf at barodrwydd dynion i redeg o un eithafion i'r llall. Ni olygid wrth hyn awgrymu fod gormod o ddefosiwn wedi ffynu yn ein gwlad ar unrhyw amser, nac ychwaith ei bod yn bosibl i neb feddu ar yspryd rhy ddefosiynol. Y cyfan a ddelid oedd ei bod yn eithaf posibl, ac mai y canlyniad naturiol yw, i olygiadau dychymygol am ddefosiwn, a llawer o fanylder a dyfalwch yn yr ymaferiad a rhyw ddefodau neillduol a gyfrifir fel yr arwyddion priodol o hono, i dueddu dosparth lluosog i feddwl yn isel am dano ac ymwrthod a ffurfiau cyhoeddus. Dichon na fyddai yn anhawdd nodi achosion eraill, heblaw yr un hwn, naill ai yn tarddu o hono, neu ynte i ryw fesur yn annibynol arno. Ond nid amcanwn i fyned ar hyn o bryd yn mhellach yn y cyfeiriad hwn. Yn unig dymunem ddweyd gair, a chyn terfynu gwnawn, os bydd cyfle, o barthed i'r dyb ddisail a ymddengys fel yn ffynu mewn rhai manau, nad yw y ffydd Undodaidd yn gymhelliadol nac yn ffafriol i ddefosiwn. Yn awr awn rhagom i ymofyn ai ni fyddai yn ddymunol, yn wyneb yr agwedd bresenol ar bethau, fod mwy o sylw yn cael ei dalu i ddefosiwn teuluaidd yn ein plith.

Bach iawn o bwys mewn cymhariaeth yw pa beth a dybia'r byd am danom, oblegid na chydreda ein ffyrdd a'r eiddynt hwy, a'n bod yn gosod ein hunain yn agored i sènau a chyhuddiadau oddiwrthynt fel rhai difater ynghylch crefydd bersonol a phrofiadol. Mae uwch ystyriaethau na hyn o lawer yn hawlio sylw, yn enwedig ar fater y mae a fyno yn uniongyrchol a chyflead y meddwl ger bron chwiliwr y calonau. Condemnied neu ganmoled y byd, erys ein dyledswydd ni yr un, mae dynol gymeradwyaeth yn eithaf dymunol pan y gellir ei enill ar dir iawn; fel nad yw yn gweddu i ni ar y naill llaw i fod yn rhy awyddus am dano, nid yw yn gweddu i ni ar y llaw arall i fod yn rhy ddibris am dano. Ond gwell i ni ar unwaith godi'r pwnc i uwch tir na hwn; nid meddwl am ddynion fel a'u llygaid arnom, ond pwyso yn ddifrifol pa beth y mae yr Hollwybodol yn ei gymeradwyo, pa beth y mae crefydd yn ei ofyn, a pha amlygiadau allanol ydynt fwyaf cyson â dyledus barch i lywodraeth a gwirionedd y Goruchaf.

Nid yw yn debyg y daw'r llinellau hyn i ddwylaw neb a amheuant y priodoldeb o addoli yn gyhoeddus o gwbl.

Ac nid ar gyfer y cyfryw, os ydynt i'w cael yn ein gwlad, yr ysgrifenir hwy. Cymerant yn ganiataol yr edrychir ar ddefosiwn cyhoeddus fel peth priodol a phwysig, ac yr ymarferir ag ef yn fwy neu yn llai rheolaidd, ac amcanant ddwyn o dan ystyriaeth anghysondeb yr ymddygiad o uno yn addoliad yr eglwys tra heb ddangos yr un gofal i gario yn mlaen addoliad y teulu. Dymunir galw sylw neillduol at hyn: *yr ymddengys fod yr unrhyw resymau sylfaenol dros addoli yn deuluaidd a thros addoli yn gynulleidfaol.* Pe na chydnabyddid yr olaf ni fyddai anghysondeb mewn gwrthod cydnabod y blaenaf. Ond nid oes rith o reswm dros gydnabod y naill heb y llall. O'r ddau diau mai addoliad y teulu yw yr henaf, yn gymaint a bod teuluoedd o gynarach dechreuad nag eglwysi. Naturiol yw casglu na fu erioed addoliad cymdeithasol cynarach na'r un teuluaidd, ac mai y duedd addoliadol a ddangosodd ei hun gyntaf yn y teulu a arweiniodd ar ol hyny i ffurfiad cymdeithasau lluosocach gyda'r un dybenion. Ond ni ryfygai neb, dybygid, i haeru fod lliosogrwydd nifer yn peri fod addoliad, fel addoliad, yn fwy cymeradwy yn y nef. Mae addewid y gwaredwr ei hun genym: "Lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt." Nid yw nifer y rhai a gydaddolant yn effeithio dim ar resymoldeb y ddyledswydd ynddi ei hun a'n rhwymedigaeth ninau i'w chyflawni. Ai ychydig a'i llawer fyddont mae yr un mor iawn a gweddus iddynt gydnabod perffeithrwydd natur, doethineb llywodraeth a daioni trefnau y Bod Goruchaf; yr un mor iawn a gweddus iddynt ddychwelyd diolchgarwch am drugareddau a chymwynasau yr amser a aeth heibio, cyfaddef eu colliadau a'u camweddau, cydnabod y cymhorth a'r cysur a ddyry Duw i'w blant, ac erfyn am arweiniad ei yspryd santaidd erbyn yr amser a ddaw. Gwnawn hyn yn yr eglwys ar y Sabbath; a chan y gwnawn, cwyd y gofyniad yn naturiol, paham na wnaem gartref gyda'n teuluoedd? Paham na chodid allor yn y teulu yn gystal ag yn yr eglwys? Onid oes anghysondeb yma? Gwneyd peth yn gyhoeddus a'i esgeuluso ar adeg llai cyhoeddus, oni rifir hyn fel un o nodau rhagrith? Oni ddyg ar gof geryddon llymion yr Iesu ar ddosparth o grefyddwyr nad oes neb yn awr a garent gael eu coffâu yn eu cwmni? Dywedwn ynte, naill ai peidier a gweddio a moliannu Duw yn y gynulleidfa, neu gwnaer hefyd gartref—er mwyn cysondeb; gan fod y rhwymedigaeth a'r priodoldeb sylfaenol yr un yn y ddau amgylchiad.

Gallwn anturio yn mhellach a dweyd, gwnaer *yn hytrach* yn y teulu; addoler gartref nad yn mha le arall. Mae anhawsderau ar y goreu i gyduno mewn addoliad cynulleidfaol. Mae cymeriadau amrywiol y rhai gwyddfodol yn peri ei bod yn nesaf peth i ammhosibl i'r sawl a fo yn blaenori y gynulleidfa yn ei defosiwn allu gwneud cyfiawnder a'u dymuniadau a'u hangenion gwahanol. Mae y weddi a'r mawl, o angenrheidrwydd, o ansawdd gyffredinol, gan nas gellir disgyn at amgylchiadau neillduol. Yn y teulu mae'r naill yn adwaen y llall, yn gwybod i raddau am dywydd ysprydol y llall; maent oll yn arwain yn debg yr un fath fywyd, fel y mae gan y penteulu fantais deg i'w cynrychioli, mewn dull o siarad, yn eu defosiwn. Heblaw hyn, mae'r teimlad rhyngddynt yn anwylach fel rhai mewn modd mwy uniongyrchol yn ymddibynu ar eu gilydd: gwyr a gwragedd, rhieni a phlant, brodyr a chwiorydd, meistri a gweision. Mae yn hawddach i ni wneyd amgylchiadau yr ychydig y byddom yn byw ac yn bod yn eu plith yn

sylweddol i ni ein hunain nag eiddo cymdeithas gymmysgedig a phell oddiwrthym. Os na chyfyngwn ein defosiwn yn llwyr i'r ystafell ddirgel ymddengys yn naturiol, yn ein gwaith yn plygu ein gliniau o flaen gorseddfainc y gras, i ni ddewis uno yn gyntaf oll â'r rhai hyny a garwn fwyaf—y rhai ydynt o'n teulu ein hunain. Ac yn mha le, os nad gartref, y mae arnom alwad i ymofyn am Dduw mewn gweddi? Ystyrier pa fath yw amgylchiadau arferol teulu bob bore. Nid yn unig yr ydym yn cydfwynhau aneirif roddion â holl ddynolryw, ond y mae Duw wedi ein rhoddi drachefn y naill i'r llall, y wraig i'w gwr, y tad i'w blentyn, y chwaer i'w brawd, meibion a merched i'w tad a'u mam. Meddylier beth fyddai unigrwydd y galon pe dim ond un wedi ei gymeryd oddiwrthym; ac a oes genym ddim diolchgarwch i'w offrymu fod ein rhai anwyl eto o'n hamgylch, fel ag yr oeddynt y ddoe, heb un o honynt wedi huno yn yr angeu yn ystod y nos?

Yn mhellach, a oes genym ddim i'w *ofyn* ar ran y màn anwyl hwnw o gylch pa un y tyra ein serchiadau dynol mwyaf sanctaidd? Yn ein hystafelloedd yr ydym yn gweddio am yr hyn a berthyn i ni yn bersonol; yn ein heglwysi yr ydym yn gweddio am yr hyn a berthyn i ni fel aelodau o deulu mawr dynolryw; ac a oes genym ni, y rhai y darfu i Dduw eu huno mewn calon, mewn perthynas, mewn cyflwr allanol, yn gyffredin mewn barn, ac yn wastad â'r rhwymau mwyaf santaidd o ddyledswydd y naill tuag at y llall, y rhai ydynt gyfranog o'r un llawenydd a thristwch, ac ydynt agored i'r un profedigaethau, a oes genym ni ddim i'w ofyn gan yr Hwn "sydd yn gosod yr unig mewn teulu?" Yn sicr rhaid i ni deimlo mai peth iawn a hyfryd yw i ni weddio arno Ef i fod yn ffon i'r hên, yn arweinydd i'r ieuanc, ein cysgod yn y dymhestl, yn amddiffynydd a chyfaill i bawb; yn sicr rhaid i ni deimlo mai peth o'r mwyaf *angenrheidiol* yw i ni ddeisyf arno i faddeu i ni a'n helpu yn ein gwendidau, a'n gwneyd yn llai annheilwng o'i ffafr a'i fendith. A thrachefn, a oes genym ddim achos diolch ei fod Ef wedi trefnu i'n cylymau teuluaidd fod yn arwyddocäol o'r cylymau hyny â'r rhai y myn Ef uno ynghyd yn ol llaw holl deulu dyn, a bod Iesu Grist wedi galw y gwaelaf o honom yn frawd iddo, a bod genym Dad anfeidrol yn y nef yn gystal a thadau egwan ein cnawd ar y ddaear?*

Mae dychweliad adegau cyfleus i ddefosiwn yn amlach yn y teulu nag y gallant fod yn un man arall. Mae dechreu a diwedd pob diwrnod, ar raddeg fach, fel dechreu a diwedd bywyd. Mae agwedd gyffrous y meddwl, y bore a'r hwyr, yn y mwynhad adnewyddol o ddaioni'r nef, fel yn awgrymu y dylid dal ar yr adeg er arwain y meddwl at Gyfranydd haelionus pob peth. Dim ond yn deuluaidd y gellir crynhoi ar y cyfryw brydiau. Mae agweddau meddwl neillduol yn passio ymaith os na chymerir gafael arnynt er eu dyfnhau a'u troi i ddyben da. Nid rhywbeth ydynt a gymer ei droi heibio ac a geidw erbyn rhyw amser dyfodol. Nid rhywbeth i'w dalu ar ben rhyw dymhorau neillduol yn unig yw diolchgarwch ac ymostyngiad dyn i'w Greawdwr. Ac am amser, fod defosiwn yn difa amser, nid oes neb a wna yr achwyniad hwn ond y bydol diddim. Y cyfan sydd yn angenrheidiol yw ymestyn at wneud pob peth yn ei amser ei hun, ac yna nis ymyrir a threfniadau gwaith y dydd. Ychydig ni a obeithiwn a geir fel tad yr enwog Dr. Franklin, (os ydym yn cofio yn iawn), yr hwn, er arbed amser, a arferai fendithio neu dalu diolch am fochyn cyfan, am sachaid gyfan o flawd, &c.,

* Gwel *Prayers for a Christian Family.* (Introduction) gan Dr. Sadler.

ar y tro. Fe *gymerir* amser at braidd bob peth arall. Os rhaid i rywbeth gael ei adael heibio, ymdrechir iddo fod y peth lleiaf ei bwys.

Hyderir yn ostyngedig y cynwysa'r sylwadau hyn, er yn dra ammherffaith, ddigon i ddangos fod y mater o ddefosiwn teuluaidd yn ein plith yn haeddu ystyriaeth ddifrifol, ac y gwasanaethant i ddwyn ar gof y seiliau cedyrn dros adgyfodi, lle y gollyngwyd i farw, a thros barhau yn ffyddlon, lle eisioes mewn arferiad (fel ag y mae, ni a obeithiwn, mewn llawer iawn o deuluoedd), y rhan bwysig hon o addoliad dwyfol. A oes dim modd ail-adeiladu yr hen allorau, mewn llawer teulu, yn gystal a dodi rhai newyddion mewn eraill? A gaiff y foreuol a'r brydnawnol weddi ar ein haelwydydd fyned yn sain anghofiedig gan yr oes sy'n codi? A raid i Mammon lyncu pob addoliad i fynu, heb ddim ond Mammon fore a hwyr, a chanol dydd? A raid i'r Beibl fyned yn llyfr diwaith yn ein teuluoedd? A geuir ei enau fel na chaffo ddatgan ei hen gynghorion doeth a'i hen addewidion melus wrth famau a phlant, meibion a merched, gweision a morwynion, yr oes hon?

Yn enwedig, a fydd i ni, y rhai a ymhyfrydwn ac a ymffrostiwn gymaint yn yr anwylaf oll o deitlau'r Goruchaf, a'r un nad oes un man arall mor gymhwys a gwahoddiadol i'w arfer a'r teulu, a esgeuluswn ni gyfarch ein Tad trugarog ar yr achlysuron hyn? Os credwn mai ein Tad yw mewn gwirionedd, nis gallwn beidio myned ato. Mae yr olwg y mae ein cred ni, seiliedig ar iaith anwadadwy yr Iachawdwr a'i ddisgyblion, yn roddi ar eigymeriad y fwyaf anogaethol i ddefosiwn, fel y mae yn syndod fod neb wedi gallu tybied i'r gwrthwyneb. Ein hanffyddlondeb ni i'n golygiadau sylfaenol yn unig allasai achlysuro hyn. Pa mor gymhwys yma yw y geiriau hyny o eiddo St. Cyprian: "Gwybyddwch gan hyny a meddyliwch y rhai ydych yn eich gweddiau yn galw Duw yn Dad, y dylech ymddwyn megys plant iddo Ef. Fel megys ag yr ydych yn ymffrostio ac yn gorfoleddu yn Nuw, am ei fod yn Dad i chwi, felly y gallai yntau ymfoddloni ynoch chwithau megys plant ufudd, anwyl, a diolchgar." Pe cyfle yn rhoi, da fuasai genym, os yn angenrheidiol hefyd, ymhelaethu ar y pwnc hwn. Rhag blino o amynedd y darllenydd, terfynir gyda sylwi: yn gyntaf, nad oes dau gydymaith mwy addas i'w gilydd na defosiwn a buchedd bur. Dim ond camddealldwriaeth a allasai erioed eu hysgaru yn meddwl neb, llawer llai eu cyferbynu fel dau beth gwrthwynebus. Helpant eu gilydd, ac yn y cyffredin, safant neu syrthiant ynghyd. Defosiwn y galon: gall geiriau defosiynol gael eu harfer pan y mae hwn yn absenol, ond lle bynag y byddo, camwedd ag ef ei hun yw ei gloi i fynu yn y fynwes yn hytrach na gadael iddo ymdywallt allan mewn geiriau. Mae gan hen dduwinydd y sylw hynod a ganlyn: "Er na bod neb arall yn bresenol, buddiol i ddyn glywed ei lais ei hun yn gweddio; yn gymmaint a bod y llais yn cynhyrfu'r yspryd, ac yn peri iddo ystyried a deall ei ddeisyfiadau ei hun yn well, a bod yn wresocach i'r gwasanaeth."

Yn ail, gyda golwg ar ffurfiau gweddi; mae pob un at ei ryddid yma, naill ai ymddiried yn hollol i'w blan ei hun neu ynte defnyddio rhyw gymhorth iddo. Mae yr olaf yn fynych yn angenrheidiol, brydiau eraill yn fuddiol. Nid oes gyflawnder o'r fath hyn o gyfansoddiad genym yn ein hiaith, ac y mae hyn yn ddiffyg; ond yn ben ar bob ffurf mae genym y ffurf odidog hono—Gweddi yr Arglwydd—yr hon a alwai Tertullian yn *Breviarium Evangelii*, cynwysiad yr Efengyl.

J. W.

EDWARD WIGHTMAN Y MERTHYR.

(Parhad o tudal. 37.)

DERBYNIODD Wightman y Llyfr Gweddi Gyffredin, a darllenodd mewn llais uchel a difrifol, "Nid oes ond un gwir Dduw byw, tragwyddol, heb gorph, heb rannau, heb ddioddefiadau; o anfeidrol allu, doethineb, a daioni; Gwneuthurwr a Chynhaliwr pob peth gweledig ac anweledig." Ac yna safodd fel pe byddai mewn dwys ystyriaeth.

"Brysia'r dyn," meddai'r esgob, "ac yn Undod y Duwdod y mae tri pherson, o un sylwedd—a wyt ti yn spelian llyfr corn yna?" Gosododd Wightman y llyfr i lawr.

"Beth! ti Ariad atgas, Cerinthiad ffiaidd, ti a bobi fel y gwnaeth Legate fis yn ol. O, ïe! yr wyt yn tasgu wyt ti? Y mae gwreichion ei losgiad ef yn dyfod dros y wlad i Litchfield, a syrthiant yn y clôs yma foru. Canys y mae wedi rhyngu bodd ei Fawrhydi yn rasol i ddanfon ei *warrant* er mwyn dy losgi yn union, os byddi yn ystyfnig. Siaredais a Legate fy hunan.* Yr oedd yn llawn mor ffiaidd a thithau; ond yr oedd yn anghenfil drwg melldigedig; yr oedd yn gwrthod gweddi i Dduw'r Mab, ac yn dàl yn erbyn y Brenin, y Llyfr Gweddi Gyffredin, a mynai nad oedd yn y Duwdod ond un person. Caniatäodd ei Fawrhydi yn raslon iddo i fyw mewn carchar am fisoedd; ond pan oedd y Beibl newydd i ddod allan, dywedodd y Brenin fod yn rhaid iddo farw, am na chawsai dim un *heretic* ei weled; a mynodd y Brenin iddo gael ei losgi i farwolaeth tair wythnos i ddoe. Beth, ti ddyn anwybodus a thruenus, wyt ti yn feddwl yw curadiaid da, a degymmau, ac offeiriadon, gwirodydd, (gwel Canonau yr Eglwys, rhif 88), a phersoniaid, &c. Beth yw yr Eglwys da, ond i gredu ynddi? Beth yw y Brenin, Amddiffynydd y Ffydd da; os nad yw ffydd y Brenin yn ddigon da i'w ddeiliaid?"

"Fy Arglwydd, nid yr Eglwys sydd yn cadw dynion, ond y gwirionedd y mae yr Eglwys yn ei ddysgu. Y mae ffydd gadwedigol o roddiad Duw, ac nid o drais brenin; y mae yn dyfod allan o galon dyn, ac nis gellir ei roddi yn ei ben."

"A wyt ti yn credu yn y Drindod sanctaidd, bendigedig, a gogoneddus," meddai yr esgob diamynedd, "tri pherson yn un Duw?"

"Nid oes un Duw o'r fath yn yr Ysgrythyrau," meddai Wightman.

"Ha! ha!" meddai'r esgob, gan glapio ei ddwylaw, a throi at y canon oedd yn eistedd yn agos atto, "bydd yn llon gan ei Fawrhydi i glywed fath ffroen rhyfeddol sydd ganddo i arogli heresi. Wel, yn awr y mae wedi

* "Yr Ariad hwnw yr hwn a ddioddefodd eleni yn Smithfield. Ei enw Bartholomew Legate; ei wlad enedigol, Essex; ei berson yn hardd; ei oed tua deugain; o yspryd eon, rhodiad hyderus, tafod ffraeth, yn gyfarwydd rhagorol yn yr Ysgrythyrau. ...Ei ymarweddiad, er dim a allaf fi gael yn groes i hyny, yn ddifeius iawn. (Rhai o'i) olygiadau damniol ydynt a ganlyn:—1. Nad yw'r credoau a elwir credo Nicea, a chredo Athanasius ddim yn cynnwys proffes o'r wir ffydd Gristnogol. 2. Nad oedd Crist ddim yn 'Dduw o Dduw; cenhedledig, nid gwneuthuredig;' ond cenhedledig a gwneuthuredig. 3. Nad oes dim *personau* yn y Duwdod. 4. Na ddylit gweddio ar Grist.

"I Smithfield y dygwyd ef i'w losgi, Mawrth y 18ed. Mawr oedd cynhulliad y bobl oddiamgylch iddo. Erioed ni alwodd *scarefire* fwy o ddwylaw yn y canol nos i'w ddiffodd na wnaeth hwn ganol dydd o lygaid i edrych arno. O'r diwedd, wedi gwrthod pob trugaredd (cynnygiwyd pardwn iddo ond iddo *recanto*) llosgwyd ef yn ulw. Felly yr ydym yn ei adael, yr un cyntaf a ddioddefodd er ys llawer dydd yn y modd yma."—*Thos. Fuller.*

olrhain hwn chwe' ugain milldir o Whitehall! Myn St. Andrew, patron saint ei Fawrhydi, ond fe chwerthina ei Fawrhydi pan gaffo wybod, fod ganddo *touch* am heresi breninol yn gystal a chlefyd breninol. Beth yn awr am yr Yspryd Glân, os nad yw Dduw?"

Attebodd Wightman, "Yspryd Glân Duw ydyw—ei gymmorth Ef i ni —ei Yspryd Sanctaidd, yr hwn a roddodd efe i Grist heb fesur, yn yr hwn yr oedd yr Apostolion yn ymlawenhau, gyda'r hwn y nerthwyd ac y bendithiwyd y seintiau boreuol, yr hwn y mae dynion difrifol, y rhai ydynt yn caru gweddi, yn ei dderbyn oddiwrth Dduw 'Tad y goleuni.'"

Gofynodd yr esgob, "A ydyw yr Yspryd Glân gyda thi?"

Attebodd Wightman, "Nid yw yn beth i ymffrostio ynddo, fy arglwydd; nid yw braidd yn beth i'w grybwyll ond rhwng dyn a'i Crëwr. Ond yr wyf yn ostyngedig, beth bynag, yn gobeithio fod Duw, mewn atteb i'm taer weddiau, wedi rhoddi i mi nerth ei Yspryd Glân, i gyweirio fy ngolygiadau, i buro fy nheimladau, ac i'm harwain yn fy ymchwiliadau ar ol y gwirionedd cuddiedig."

"'Nawr," meddai'r esgob, "Mr. Secretary, ysgrifenwch ei fod yn dywedyd mai efe yw yr Yspryd Glân."*

Dywedodd Wightman, "Na, ni ddywedais i ddim o hyny, fy arglwydd; yr ydych yn fy ngwneuthur yn gablwr."

"Dyna oedd dy feddwl, y dyn," meddai'r esgob, "ni chawsai dyn byth afael yn y gwir oddiwrth yr hereticiaid dwl yma, oddieithr i ryw un eu helpio. A wyt ti wedi ysgrifenu ei fod yn dywedyd mai efe yw yr Yspryd Glân? Ac yn awr, Edward Wightman, a oes genyt rywbeth i'w ddywedyd cyn y rhoddaf di i fynu i'r gallu gwladol, i gael dy losgi foru; oblegid y mae y sanctaidd fam Eglwys yn rhy drugarog ei hunan i niweidio hyd yn oed heretic."

"Gwrandewch," meddai efe, "yr wyf yn marw dros addoliad yr un Duw, y Tad, am addoli megis yr addolodd y chwech cenhedlaeth cyntaf a sanctaiddaf o ddisgyblion, oblegid ni chlwysant hwy erioed enw, llawer llai athrawiaeth y Drindod. Yr wyf yn marw nid am ddirmygu, ond am garu yr Arglwydd Iesu. Pe buaswn yn gwerthfawrogi ei Efengyl yn llai buaswn yn adrodd y credöau yna, a buaswn yn ddedwydd gyda fy ngwraig a fy mhlentyn, cawswn gadw fy maenor a'm neuadd, y rhai a gânt yn awr eu fforffetio. Yr wyf yn marw dros yr achos mwyaf y gall dyn farw, i ddàl i fynu undod, mawrhydi digymhar, gogoniant anwahanedig, ac arglwyddiaeth dirannedig y Creawdwr, Duw y nefoedd a'r ddaear, a holl dragwyddoldeb. Yr wyf yn cyffessu fy mod yn ofni y farwolaeth ofnadwy sydd wedi ei ddyfarnu i mi, ond, gyda eich teimladau chwi, eich dyledswydd feallai ydyw i'm dedfrydu. Ond y mae goleuni yn yr Efengyl, mewn cydmariaeth a'r hwn y mae'r golygiadau cyffredin am grefydd yn dywyllwch gwrthun. Rhaid, fe ddichon, i lawer merthyr farw yn gyntaf, a llawer o erlidigaeth tost, a dirmyg ac anghyfiawnder a cholled, i gael eu dioddef, a hyny feallai am oesoedd; ond fe *ddaw* yr amser pan y bydd Duw y Tad yn unig Dduw, a phan y cyfyd Cristionogion uwchlaw yr ymarferion gwaedlyd yma at y cariad o'r hwn yr oedd Iesu Grist yn ddadguddiad."

*Ymhlith y golygiadau a briodolir i Wightman, y mae rhai yn ymddangos yn dra choelgrefyddol, megis, mai efe oedd y prophwyd a ragfynegwyd yn Deut. xviii. Ond y mae yn beth tra ammheus pa un ai ei olygiadau gwirioneddol ef oedd y rhai hyn, neu ynte yn unig y golygiadau oedd ei elynion yn briodoli iddo.—*Lindsey.*

"O! ddyn drwg a phenwan!" meddai'r esgob. "Onid wyt ti yn credu hyny," meddai efe, gan droi at berson Womerton, dros ruddiau yr hwn yr oedd y dagrau yn llifo i lawr, "a chwithau," meddai efe wrth offeiriad cuchiog o Coventry, "onid yw efe yn euog?" Yna wedi i'w ras ymryddhau oddiwrth lewys *lawn*, y rhai oeddent wedi dyrysu yn addurnwaith ei gadair, cyfododd a dywedodd, "Yr wyf yn dy gyhoeddi di, Edward Wightman, yn heretic gwrthnysig, cyndyn, ac anniwygiadwy. Mr. Sirydd, symmud ymaith y carcharor. Dyma *warrant* ei Fawrhydi i wneud iddo fel y dywedwyd.* Meistr, O! syr Sirydd, y mae yn rhaid i ti benderfynu ar nos y foru o bella i'w losgi, oblegid yr wyf fi yn myned tua Llundain, i edrych dros gyfieithiad newydd y Beibl, yr hwn y mae ei Fawrhydi wedi rhyngu bodd i orchymyn, ac y mae wedi ei gyflawni gan ddynion dysgedig, dwfn yn *interests* y sanctaidd Fam Eglwys. Pan gwelaf ei Fawrhydi ni fydd yn foddlon, os na adroddaf wrtho am farwolaeth, neu ynte dröedigaeth yr heretic. Cofia, syr Sirydd, y cynghor, gyda golwg ar gadw y carcharor mewn lle nas gall neb fyned atto, a bydd yn barod erbyn foru."

Yn fuan wedi i'r dorf ddechreu symmud, taflodd Hadrian Hamsted ei freichiau o gylch gwddf ei gyfaill. "Swyddogion!" meddai'r Sirydd, ac fe darawodd un o honynt Hamsted ar ei ben, a thaflodd ef o'r neilldu yn annheimladwy. Gwarchodwyd Wightman wedi'n allan o'r *Cathedral* gan y cwnstebli. Fel yr oedd yn cael ei arwain trwy y drws, gosodwyd papur yn ei law, a phan gadawyd ef yn unig yng ngharchar Litchfield, gwelodd mai nodyn wedi ei ysgrifeuu ar frys ydoedd, oddiwrth *Chancellor* Cathedral Litchfield, yn arwyddo ei ofid tost am dynged Wightman, ac yn dywedyd y buasai yn cymmeryd digon o ofal am ei wraig a'i blentyn, am ei fod ef, y Chancellor, yn oedranus ac heb blant, ac y cawsent fod yn etifeddion iddo.

Cyhoeddwyd fod y dihenyddiad i gymmeryd lle am chwech prydnawn dranoeth. Am bump yn y prydnawn, codwyd y pawl, dan oruchwyliaeth *beadle*. Cyfarchodd dyn dieithr ef—"Wel, yr ydych yn myned i losgi yr heretic, ac felly i ysu briwiau'r eglwys. Y mae eu holynwyr yn well, yn fwy dyfal esgobion na'r Apostolion eu hunain; a ydych chwi ddim yn meddwl hyny Mr. *Beadle?* Beth fuasai crefydd wedi ei wneuthur; am bob *beadle* yn awr buasai 50, pe buasai ychydig gannoedd o Phariseaid wedi eu llosgi ar y cyntaf! Ond a wyddoch chwi, nid oedd yr Apostolion yn hidio dim am ddegwm nac uchel offeiriadaeth. Nid oedd ganddynt ddim sêl dros yr eglwys, fel ein Esgob ni; yr oeddent yn maddeu hyd yn oed i'w gelynion.

"A ydyw'r coed yn sychion?"

"Ydynt, syr, y maent wedi eu torri er ys dwy flynedd. Hwy losgant pan ddodaf dân ynddynt."

"O ba le yr ydych yn myned i gael tân?"

"Yr wyf fi yn byw," meddai'r *beadle*, yn y tŷ bychan accw."

"Ystyriwch chwi yn awr," meddai'r dieithryn, gan roddi Beibl agored i'r *beadle;* "os na adawai Crist i'w ddysgyblion i alw am dân i losgi'r Samaritaniaid, a ddylasech chwi roi tân o'ch tŷ i losgi Edward Wightman?" "Wel," meddai'r *beadle*, y mae efengyl yn ei erbyn, a gadawaf lonydd iddo. Aeth y dieithryn ymaith, a dywedodd y *beadle*, "Ond y mae yn rhaid i ryw un ei wneuthur; cystal fi a rhyw un arall."

*Yr oedd Undodiaeth yn ddarostyngedig i gosp marwolaeth hyd ddiwedd y 17 canrif, ac yr oedd y rhai a'i proffesent yn ddarostyngedig i garchar parhaus yn Lloegr, ac i farwolaeth yn Scotland hyd y flwyddyn 1813.

Am saith o'r gloch, dygwyd Edward Wightman i'r cathedral *yard*, a chadwynwyd ef wrth y pawl. Cyfodwyd y ffagodau oddiamgylch iddo gyda hrys, ac ymhen awr yr oedd ei ludw wedi ymgymmysg a lludw y coed, a'i yspryd wedi dychwelyd "at Dduw yr hwn a'i rhoes ef."

Wedi i'r tân leihau, tynodd rhyw ddyn y gadwyn allan, a'r hwn yr oedd Wightman wedi ei glymmu wrth y pawl, cododd ef i fynu, yn goch tân, gan addunedu ynghanol bonllefau yr edrychwyr, y buasai yn ei gadw er gwasanaeth neillduol y Fam Eglwys sanctaidd.

Yn yr hwyr, ac yn hir wedi i'r dorf wasgaru, yr oedd y dieithryn y sonwyd am dano o'r blaen yn eistedd ar risiau y Cathedral. Daeth offeiriad allan i'r drws, a gofynodd iddo yn ddrwg-dybus, pam yr oedd yn eistedd yno?

"Syr," meddai yntau, "yr wyf yn meddwl."

"Sho!" meddai'r offeiriad gyda dirmyg.

"Syr," meddai'r dieithryn, "a ydyw meddylwyr mor gyffredin yn y wlad hon fod ——"

Rhwystrodd yr offeiriad ef. "Pam yr wyt yn dewis y lle hwn i feddwl?"

Attebodd y dieithryn yn alarus, "Oblegid fod y lludw goleu draw yn bwngc i feddwl arno. Nid bob dydd y mae dyn yn cael ei losgi; nid bob dydd y mae dyn yn cael ei eni sydd werth ei losgi."

Dechreuodd yr offeiriad deimlo dyddordeb ynddo, a dywedodd, "Wel, beth ydyw dy feddyliau yn awr? Y maent yn ddigon diogel gyda myfi."

"Syr," meddai'r dieithryn, "yr ydwyf mewn sefyllfa y gallaf fod heb dy geledigaeth *(secrecy)* di. Ond ti a gei fy meddyliau, hwy a fyddant er da i ti. Yr oeddwn yn meddwl ynte, pe buasai yr Edward Wightman hwn yn ymfoddloni ar gael ei besgu a'i wisgo yn dda, gallasai fod yn fyw yn awr; ond yr oedd yn meddwl mai dyben Duw yn ei greadigaeth oedd gwneuthur *dyn*: oherwydd y camsynied hwn, un marwol yr wyf yn addef, y mae efe wedi dioddef yn y modd y gwyddom. Pe buasai wedi llawnodi erthyglau eglwys heb eu deall, ac adrodd credoau heb eu credu, pe gallasai efe dyngu anudon, gallasai fod wedi cadw ei fywyd ddoe. Trigain mlynedd yn ol darfu i wyth mil o offeiriaid Protestanaidd, ar orchymmyn Mari, droi yn offeiriaid Catholig, darllen y *mass-book*,* a llyngcu athrawiaeth y trawssylweddiad. Pum mlynedd ar ol hyny ar ddymuniad brenines arall troisant yn barsoniaid Protestanaidd—nid *personiaid*, oblegid nid oeddent yn meddiannu *personoliaeth*, nac ewyllys, na barn, na theimladau o eiddo eu hunain. Am bersonaethau eglwysig yr oeddent hwy yn meddwl ac nid am athrawiaeth eglwysig. Eu Duw oedd eu ból. Eu gwleidiadaeth oedd gwleidiadaeth y degwm. Eu crefydd oedd crefydd y wlad. Bwyttawyr y degwm oeddent, a dim ond hyny; bol-gŵn, gwancus, bochgoch, feallai, ond etto yn neillduol bwyttawyr y degwm. A pha beth ydych chwi ond bwyttawyr y degwm? Neu ynte paham y llosgwyd Wightman? Buasai teimladau gonest yn parchu ei onestrwydd; buasai egwyddor grefyddol yn anrhydeddu y teimlad crefyddol hwnw, yr hwn oedd mor gryf fel y bu farw drosto. Beth! Ni allasai ddywedyd y credoau! Nid oedd yn credu yn hollol yn Nuw Athanasius. Nid oedd yn credu fod esgobion cynhenllyd, coelgrefyddol Nicea yn esponwyr anffaeledig o'r natur ddwyfol; ond yr oedd yn gwneuthur peth gwell, yr oedd yn addoli Duw yn ei yspryd.

* Llyfr gwasanaeth Eglwys Rhufain.

"Pan oeddwn yn blentyn bach, dywedodd fy mrawd, yr hwn oedd wedi tyfu i fynu, fod ganddo ei olygiadau ei hun am fy hen dad rhinweddol. Yr oedd Gregory yn eiddigus, yn drachwantus, ac o feddwl bach iawn. Nawr, byddai yr un peth yn gymmwys, ac yn llawn mor gyfiawn i fy mrawd fy moddi i, am beidio meddwl yr un peth am fy nhad ag efe, ag oedd i chwi i losgi Wightman am beidio meddwl am ei Dad o'r nef yn ol eich golygiadau chwi. Mwrddwyr ydych chwi bob un, ac yn gymaint ag i chwi ei ladd yn enw eich Tad cyffredin o'r nef, yr ydych yn frawdleiddiaid."

"Ond, syr," meddai'r offeiriad, "yr oedd yn heretic."

"Nis gwn i ddim o hyny," oedd atteb y dieithryn. "Yr oedd Paul yn addoli ei Dduw yn y ffordd oedd *rhai* yn ei alw yn heresi. Heretic yr ydych chwi yn ei alw, syr offeiriad. Yr oedd yn adnabod ac yn caru Duw yn ei ffordd ei hunan; ond nid ydych chwi yn ei adnabod, ond yn unig trwy y namyn un erthygl deugain, ar ail law trwy y difinyddion Elizabeth-aidd. Y mae yn rhaid i chwi i beidio credu na mwy na llai na'r dynion meirw hyny ar berygl eich marwolaeth. Heretic! Yr wyf yn dywedyd wrthych fod dibenion Cristnogaeth yn cael eu hatteb yn well trwy un heretic fel Wightman, na thrwy 8,000 o offeiriaid uniawn-gred, yn newid eu crefydd ar amnaid menyw. Y mae ymchwiliad Edward Wightman yn ei Feibl—ei opiniynau gonest, y rhai oeddent yn anwyl iddo, a thros y rhai y bu farw, yn fwy o werth i Grist na holl *gredo*-aeth, a chredo-adroddiaeth, *pater-noster*-aeth, ac erthygl-llaw-nodaeth yr holl Esgobaeth."

"Dywedwch y gredo hon," meddai eich esgob chwi; "y mae yn wirionedd cadwedigol." Yr oedd Charlemagne, wedi newydd bechu, yn arfer dywedyd, 'Rhoddwch i mi glogyn St. Jerome rinweddol,' ac wedi ei wisgo yr oedd yn meddwl ei fod yn trosglwyddo sancteiddrwydd iddo ef. Y mae eich difinyddiaeth chwi a moesoldeb Charlemagne yn debyg iawn o ran caracter a theilyngdod. Yn awr, syr offeiriad, cerddwch a meddyliwch drosoch eich hunan, a chofiwch i edifarhau am y pechod yn yr hwn y cymmerasoch ran heddyw. Y mae llys uwch na chwrt yr Esgob. Oddiwrth pob llys daearol, y mae appêl at lys Duw, a thuag yno y mae Mr. Wightman wedi myned a'i achos. Ni phery y pumed sêl byth heb ei dorri. Caiff y Dadguddiad ei gyflawni. Agorir y sêl; a gwelir yr hyn a welodd Ioan 'dan yr allor, eneidiau y rhai a laddesid am air Duw, ac am y dystiolaeth oedd ganddynt;' ac yn ardderchog yn eu plith, disglaer fel y sêr yn oes oesoedd, gwelir Edward Wightman, heretic Hinckley y mae yn wir, ond ymhen amser merthyr parchus y byd; yr hwn a wnaethpwyd yn ysglyfaeth gan Esgob Neile, ond yn gyfaill gan Grist—Diwygiwr yr Eglwys Gristnogol."—(*Wedi ei dalfyrru o Saisneg* WILLIAM MOUNTFORD.)

Gan Maridunensis.

GWERSI BYRION.

Os gellwch fyw yn rhydd oddiwrth eisiau, na ofalwch am ragor; oblegid nid yw'r gweddill ond gwagedd.—RALEIGH.

Yr anffawd mwyaf i gyd yw fod dyn yn analluog i ddioddef anffawd.—BIAS.

Yr hwn sydd arno eisiau leiaf, meddai Socrates, sydd debycach i'r duwiau, y rhai nid oes arnynt eisiau dim.

Heb gyfeillion nid yw'r byd ond diffaethwch.—BACON.

Y mae yn well syrthio ymhlith brain nag ymhlith gwenieithwyr; oblegid nid yw'r blaenaf ond yn difa'r marw, tra mae'r olaf yn difa'r byw.—ANTISTHENES.

BRAWDGARWCH RHWNG GWAHANOL ENWADAU CREFYDDOL.

DIAU mai ein dyledswydd ydyw ymdrechu hyd y mae ynom er cenedlu, magu, a meithrin Cariad brawdol, oblegid dyma ffynnon pob daioni cymdeithasol, a phrif addurn pob cymdeithas. Dyma wir achos ein cysuron, ein llonyddwch, a'n dedwyddwch gwladol, teuluaidd, ac eglwysig. Lle b'o diffyg cariad brawdol, yno y mae llid, cenfigen, ymryson, a phob gweithred ddrwg, yr hyn sydd yn cymylu gogoniant Duw, yn tristau'r Ysbryd Glân, difa nerth, yn atal llwyddiant, ac yn gwneyd pob cymdeithas yn hollol anghysurus ac annedwydd. Yn awr, gan fod Brawdgarwch yn berl mor ardderchog, a bod y fath afonydd oerion, gwenwynllyd, yn rhedeg o groth cenfigen, tueddwyd fy meddwl i wneyd rhai nodiadau, gydag amcan i symud ymaith yr holl enllib "a phob gogan air" sydd rhwng pleidiau crefyddol a'u gilydd; oblegid ni ddylai pobl yr Arglwydd ymryson. Paham na ddylent ymryson? Oblegid fod pawb yn ffaeledig ac yn agored i gyfeiliorni. Y mae meddyliau cymedrol am alluoedd dynol yn annogaeth gref am Frawdgarwch. Er mai *rheswm* ydyw'r rhodd ardderchocaf o holl roddion y Creawdwr i'w greadur, yr hyn sydd yn gwahaniaethu y naill greadur oddiwrth y llall—yr angel a'r dyn oddiwrth yr anifail—yr hyn sydd yn gwneyd i fynu gyfrifoldeb y naill i'w Greawdwr yn wahanol i gyfrifoldeb y llall; neu, nid oedd yr angelion, na dyn chwaith, yn eu sefyllfa greadigol, wedi eu cynysgaethu â *rheswm auffaeledig;* ac oblegid hyny yr oeddent yn agored i gyfeiliorni. Ond pa faint mwy agored ydym ni i hyny, y rhai ydym wedi ein geni dan beryglon llygredd, ac oddiar ein mabandod wedi ein hamgylchyni â rhagfarnau o bob math? Am hyny, "Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, ar garu o honoch eich gilydd; fel y cerais i chwi, ar garu o honoch chwithau bawb eich gilydd."

Yn nesaf, y mae gan bob plaid grefyddol hawl a rhyddid i farnu drostynt eu hunain yr un modd a'u gilydd. Y mae dyn wedi ei gynysgaethu â galluoedd addas, fel creadur rhesymol, i farnu drosto ei hun; a diau genyf fod y Duw a'i gwnaeth wedi bwriadu iddo wneuthur felly; oblegid yn ol pob rheswm, rhwymau pawb yw addoli Duw yn unol â'r amlygrwydd a fo ganddynt o'i ewyllys ef; ac iddo ef yn unig, ac nid i neb arall, y mae pawb yn gyfrifol am eu hymddygiadau tuag at ei ewyllys. Mae'n rhaid, o ganlyniad, fod gan bob dyn hawl i farnu a deall drosto ei hun pa beth yw ewyllys ei Arglwydd, a pha beth y mae yn geisio ganddo i'w wneuthur, ac ymddwyn yn gyfatebol i hyny. "Paham nad ydych yn barnu, ïe, o honoch eich hunain, yr hyn sydd uniawn?" Mae Crist a'r Apostolion mewn amryw a gwahanol destynau, yn gosod allan yn eglur eu bod yn goleddwyr rhyddid cyffredinol mewn materion crefyddol. Ond y mae'n dra galarus meddwl fel y mae llawer hen wrach wedi ymdderchafu i'r orsedd, ac yn crochwaeddu, "Fy Enwad i sydd yn ei le"—"Ein Corph ni sydd iawn," &c. Y gwir yw, pe byddai i'r cyfryw gael awenau'r llywodraeth wladol yn eu llaw, fe ddywelltid cymaint o waed dynol ag erioed, os nad mwy, yn yr oes hon, dan rith amddiffyn y Gwirionedd! "Na fyddwch fel march neu ful, heb ddeall, yr hwn y mae'n rhaid atal ei en a genfa."

Peth arall yw'r agos berthynas sydd rhyngom—Brodyr. Darllenais hanes am ddwy long ar y cefnfor yn cyfarfod â'u gilydd, a'r naill yn camgymeryd y llall yn y tywyllwch, hwy a ddechreuasant ymladd â'u gilydd yn

ffyrnig; ond goleuni'r bore a ddadguddiodd iddynt eu hynfydrwydd—dwy chwaer oeddynt—perthynasau agos—wedi lladd a chlwyfo eu gilydd yn ddychrynllyd! a mawr y galar a deimlid gan y ddwy oblegid yr amryfusedd. Cymerwn addysg oddiwrth hyn, a charwn ein gilydd o galon bur yn helaeth.

Y peth nesaf yw'r annhebygolrwydd, os nad yr annichonrwydd, i ddynion gydymffurfio o ran barn. Amcanu at hyny trwy drais sydd gwedi bod yn achos tywallt afonydd o waed lawer pryd. Nis gellir cyfansoddi cyfreithiau, gwladol na chrefyddol, er peri unffurfiaeth barn yn y meddwl dynol. Geill y cyfryw gyfreithiau beri tywallt gwaed, neu wneud rhagrithwyr—dyna'r cwbl. Mae pob dyfais wedi syrthio yn aflwyddianus hyd yma o ateb y dyben i gael dynion yn gyfunfarn, yn enwedig gyda golwg ar Gredöau crefyddol. Y mae hyny mor anhawdd a ffurfio pob meddwl yr un fath o ran ansawdd, neu bob corff yr un fath o ran dull ac agwedd. Cyhyd ag y byddo gwahanol feddyliau, fe fydd gwahanol farnau, a "Rhydd i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafar." Felly, afresymol yw dysgwyl unffurfiaeth barn. Gan hyny, bydded hyn yn annogaeth i ni gydymddwyn â'n gilydd, a chydoddef ein gilydd mewn cariad.

Yn mhellach, y mae gan bobl yr Arglwydd ddigon o waith heb ymryson â'u gilydd ar y ffordd. Brodyr ydynt—perthynasau agos—plant yr un Tad, yn tynu tua'r un wlad; ac ni ddylent, mewn un modd, ymryson â'u gilydd ar eu taith. Frodyr anwyl, os ydych yn teimlo ysbryd milwrol ynoch—ysbryd ymladd—gwrthwynebwch ddiafol, ac ymladdwch yn ffyrnig ag ef, ac â'ch holl elynion. Os ydych yn teimlo digofaint ynoch, defnyddiwch ef yn erbyn pechodau'r oes. Defnyddiwch eich holl alluoedd at yr hyn oedd yn ngolwg yr Arglwydd pan yn eich cynysgaethu â hwynt, sef gogoniant eich Creawdwr, a'ch dedwyddwch eich hunain. "Tra yn cael amser cyfaddas gwnewch dda i bawb; ond yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd."

Yn ddiweddaf, yr ydym yn nesau i fyd, yn yr hwn y cawn gyflawn esboniad ar bob peth tywyll i ni yma, os bydd angenrheidrwydd am hyny. Yn y byd hwnw fe ddadguddir pob dirgelwch a fyddo'n angenrheidiol i ni; ond y mae'n debygol mai yn raddol y cymer hyny le. Ond fe allwn fod yn sicr yn hyn, fod ysbryd Duw yn y byd hwn yn tywys i bob gwirionedd o bwys ei wybod; ac y mae'n debygol y dadguddir amryw wirioneddau ag sydd yn awr yn ddirgeledig, o hyn hyd ddydd y farn. Mae lle i farnu felly oddiwrth yr hyn sydd wedi cymeryd lle yn ystod yr oesau a aethant heibio o'r byd. Yr hyn oedd dywyll mewn un oes a wnaed yn oleu mewn oes ddilynol, &c., h. y., llawer o'r hyn oedd dywyll, gan fod mwy i'w ddadguddio a'i ddadleni yn y dyfodol nag a wnaed er dechreuad y greadigaeth hyd yr awr hon; a hefyd, nis geill creadur meidrol fod yn gymwys i dderbyn dadguddiad o'r dirgelion oll—cynwysir rhan fawr o'i ddedwyddwch yn yr awydd a'r ymgais am wybod ychwaneg.

Gan hyny llefwn holl am nef newydd a daear newydd yn breswyl bythol i fyw, lle mae cyfiawnder yn cartrefu, a lle cawn ryw ddadguddiadau yn dragwyddol o wahanol ddirgelion.

> "Dirgelion o hyd ddadlenir yn amlwg,
> Rhy fyr tragwyddoldeb i'r oll dd'od i'r golwg."

Ymdrechwn roddi ein serch ar y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw, ac nac ymrafaeliwn â'n gilydd.

DEWI O'R DYFFRYN.

SYLWADAU PELLACH AR RAI O'R CYHUDDIADAU A DDYGIR YMLAEN YN ERBYN YR UNDODIAID;

Sef eu bod yn gwadu Dwyfoldeb yr Arglwydd Iesu Grist. Yn ail, Fod yr athrawiaeth maent yn ddysgu mewn perthynas i Iesu Grist, yn ymddifadu pechadur o'r unig sylfain gobaith sydd ganddo am dderbyniad gyda Duw. Yn drydydd, Eu bod yn disgwyl cael eu cyfiawnhau, neu ynte eu bod yn ymddibynu am fywya tragwyddol ar eu gweithredoedd da.

(*Parhad o tudal.* 279. *Cyf. III. Rhagfyr*, 1861.)

MR. GOL.,—Cyn myned ymlaen i sylwi ar y cyhuddiadau uchod, yr y'm yn hyderu y caniatewch i ni wneud sylwad neu ddau, mewn perthynas i bwysfawrogrwydd gwirionedd a'n dyledswydd yngwyneb hyny.

Y mae yn ymddangos i ni ei fod yn beth anhepgorol angenrheidiol i ni osod allan ein syniadau, ar y pyngciau crefyddol hyny ynghylch y rhai yr ydym yn gwahaniaethu oddiwrth ein brodyr Trindodaidd. Ond tra y byddom yn ymresymu ac yn sylwi ar y pyngciau hyny ydym ni yn gredu sydd o'r pwys mwyaf, gweddai ein bod yn eu trafod yn yspryd yr Efengyl, gan ystyried nad oes modd gwneud cyfiawnder â'r gwirionedd heb chwilio yn oestadol am dano, a'i ganlyn yn ddidwyll, ac yn ddirodres, pa beth bynag fydd y canlyniadau, ïe, yngwyneb gwawd a dirmyg. Dyna fel y gwnaeth yr Iesu; dyna fel y gwnaeth ei ddisgyblion cyntefig; dyna fel y gwnaeth y diwygwyr pan daflasant o'r neilldu y llyfytheiriau oeddynt yn eu caethiwo i lawr dan awdurdod ormesol: a thyna sydd yn rhaid i ninau wneuthur hefyd, os ydym am ddangos i'r byd fod y gwirionedd o fwy o werth yn ein golwg na dim arall: ïe, dyna fel y mae yn rhaid i ninau wneuthur, os ydym yn disgwyl iddo wneud ei ffordd yn y byd, ac i'n gwneuthur ninau yn ddynion rhyddion, fel y dywedodd yr Iesu wrth yr Iuddewon, "A chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddhâ chwi." Ac os ydym ni yn credu ein bod yn feddianol arno, ein dyledswydd, bid sicr, yw ei amddiffyn yngwyneb pob gwrthwynebiad a digalondid: ïe, ein dyledswydd arbenigol yw sefyll o blaid ein hegwyddorion, a gwrthwynebu pob cyfeiliornad mewn meddwl, gair, a gweithred.

Yr ydym yn wybodus nad yw rhai o'n brodyr Cristnogol, yn enwedig yn Lloegr, yn cydweled a ni yn hyn o beth. Na, y mae rhai o honynt yn dweud rhywbeth yn debyg i'r hyn a ganlyn, sef "Nid ydym yn gofyn, nac yn disgwyl i chwi i bregethu pregethau athrawiaethol; ond pregethwch bregethau ymarferol, a gadewch yr esgyrn sychion yn llonydd. Gadewch i ni gael mwy o grefydd a llai o dduwinyddiaeth;" fel pe bai yn bossibl caru Duw heb wybod dim yn y byd am dano? Ai nid ystyr y gair *duwinyddiaeth* (*theology*) yw gwybodaeth am Dduw?* Pa fodd bynag, amlwg yw fod yn rhaid i ni gael gwybodaeth am dano Ef a'i berthynas â'r Iesu ynghystal ag â ni ein hunain, cyn byth y gallwn ei garu, neu mewn geiriau ereill, cyn byth y bydd genym grefydd o'r rhyw iawn.

[*Nid y'm yn meddwl y cyttunir yn gyffredin a'n Gohebydd yn yr ystyr a rodda i'r *term* duwinyddiaeth, fel y cyfieithiad o'r *terms Theology* a *Divinity*. Yr y'm yn sicr na fuasai y llefarwr a gyfeirir atto yn foddlon, ei fod yn cael ei roddi ar ddeall i Undodiaid Cymru iddo ef ddywedyd, "Gadewch i ni gael mwy o grefydd *a llai o wybodaeth am Dduw*." A phe buasai yn feistr ar y ddwy iaith, fel llawer o honom ni y Cymry, diau y buasai iddo roddi gwybod i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD mai nid hyn yna ydoedd ef yn feddwl wrth y *term "Theology;"* eithr *dysgeidiaeth am Dduw wedi ei gosod allan mewn trefn ysgolheigaidd a dull dadlewol.* Ac mewn perthynas i'r gair "*divinity*," ni fyddai maes o le, feallai, i sylwi, fod Trindodwyr Seisnig, hyd yn ddiweddar iawn, yn arfer enwi eu hamddiffyniad o Dduwdod Crist yn "*Defence of the Divinity of Christ.*" Nid y'm yn gwybod am un awdwr cyfrifol, ag yntau yn Undodwr, ag sydd wedi priodoli *dwyfoldeb (divinity)* i'n Harglwydd Iesu Grist o flaen Dr. Beard. A chyda phob parch i Dr. Beard ac i'n Gohebydd, nis gallwn lai na dywedyd fod y cymhwysder o'r cyfnewid yma ar ystyr y *term* yn dra ammhëus. Dylem ochelyd, hyd y gallom, arfer geiriau dau feddwl, neu a fyddont yn tueddu ac yn arwain i gamddarluniad a chamddeall.—GOL.]

Hefyd, y mae yn ymddangos i ni fod y dull cohod o fyned yn y ddaear, nen o greifdda os mynnoch, yn ddull camsynnol ac o'r cadwyraddau mwyaf diesymmaith. O! meddwi, medd hyny, "Nid yw ond i nebrydig gwys hetu ydyw ein synnaidau crefyddol, gwae, nad ydym ni yn gymmwys i gondemnio na chollfarno neb yn fwy nag ydyd, ond ar yr un pryd yr ydym yn blod yr un hawl i farnu dosaom ein hunain, ac i cesod allan ein synnaidau a hwyddau, ac y mae yn ymddangos i ni fod y dywedadau yn barod, fod y dull cohod o greifydda yn nawddiad, ac yn rasddu i tadu y gwrancedd fel y mae yn yr hen.

Y mae yn hoewdd i ddim i fod yn eithaf cydwybodol, pan yn cydfawn y petham mwyaf adeiymmol a nawddiol et gaethwadau.

Dambwedd yn fod mulwedd, oes fyrdd o bagaredd, yn eithaf cydwybodol pan yn ymosewng i addoli yr edion-ddiwaian. Gad a ydym i dyna y cragdad, a dywed en hod yn nawn o berrydd hwy? Nae ydym, a hod yn yor. Mewn amgylchiadau o'r fath, ei ein dyledwyddd yn dweud wyna yn edion-addoliwy hyny. "Os ydych yn gydwybodol, y mae yeh peth yn nawn!" Ymhellach, ei eglwys ein mesiodd, dyeh-mygwn ein hod yn ryfarfod ag yn o'r cydgreadurnaid mewn rhyw le neuad, megys ar hen rhyw dywydd ewag, ac yn dechreu swnd ar ef ysgrifeth yn gyfrwnd y mae yn mynedd. Yn awr ni a ddymma yn gamatach, ei hod ni yn gwybod am hen cyfrwnd, o'r fan lle mae'r ymddiddan ychod yn cymeryd le. Wedi hyny medddiwn fod y dyn a swmwyd ann ddaw, yn dweud ei dod am dynedd'r man hyn nos'r man arall, a nieon yn gwybod ar yr un pwrb ei fod wedi colli y ffordd o ddigon. Beth ydym ein dyledwyddd tuag at y dyn yna? Ai dweud wrtho fel y canlyn, sef, "Os ydych yn credu yn cydwybodol mae ddim y ffordd hawn, dyna beth peth o'r gwaed," ac yntau ar yr un pryd yn mynedd ar hod y ffordd hwn eyfal yn ewy o'r awman dwis hen y dihyn? Nage. Nid wer, medd ein dyledwyddd fyddai, ymlwedu ei argyhoeddi o'r gamymmed, a dweud 'hyny ei ewed ar y ffordd hwn; felly yn gymmwys gyda gofrg ar 'ameriou creffyddol. Yn y lle cyntaf y mae yn rhaid ymlwedu gosod allan y Dawdod yn y golau mwyaf deniadol.

Y mae yn rhaid dysgu dyn mewn perthynas i gymeriad tadol y Gorwchaf, ac mewn perthynas i'w amcanion dyfnion a da, cyn fyth y gall ymserchu yndda; he, cyn fyth y gall ei ofni, ei garu, a'i ffoldion. Wel, yna, ar hwys hyn yna gofynnu, ai nid ein dyledwyddd mnaa fel Cristnogion yw ymlwedu argyhoeddi ein cyd-ddynion o'u camsynnadau, a'u gosod ar y llwybr hawn, os ydym ni yn medu yn wirioneddol en hod yn gamsynnol? Anobod y dadleuydd y gofynnal ei hunan.

Dwedwch, yr ydym wedi clywed llawer ym cyn hyn yn dweud fel y canlyn: sef, "Os mae genych chwi y mae y gwirioneddd, beth ydyw y rheswm fod mae lleiad yn ei dderbyn?" ac yn wir y mae llawer iawn o'n cydgreadurnaid yn barod i edweud fod y rhai lleiaaf yn sicr o fod yn iawn. Wel, os yw y rhai lleiaaf yn brawd anwrthwynebol ieon wirioneddd ymhyw athrawiaeth, eawn weled yn y man pwy sydd mewn' beth hynny ar y gwirioneddd. Nen yma gan hwy o'r holl sectau Cristnogol y mae cael cwrfydd mewn gwirioneddd, yn ol y dull cohod o ymresymm. Y mae y lyd Cymmrogol yn cael ei ddosparthu yn y dull canlynol, gan ddim o'r eaw Sulliwan, sef, Pabyddion 121,749,000; Presbyteriaid o bob enwad, h.y., Eglwys Loegr, yr Independiaid, y Bedyddwyr, y Methodiaeid, y Wesleaid, yr Undodiaid, ynghyd ä phob enwad arall, 52,849,000. Yr Eglwys Roeg, 43,300,000. Mahometaniaid, 8,050,000. Iddewon, 1,750,000.

Yn awr yr ydym yn gweled yn amlwg oddiwrth y llethres uchod, mai Pabyddiaeth ydyw y gwirioneddd ieon, nen yma mae gan y Pabyddion y mae y gwirioneddd yn ddim, os yw y mwyafrif yn brawd anwrthwynebol o hyny, oblegid y mae'n hwy yn gwneud i fyny y swm o 49,400,000 yn fwy na'r oll Protestaniaid gyda'u ghyfrif. Ar yr un pryd y mae y rhan lwyaf yn y wlad hon, medd'r cyfan, yn dweud mae cyfeiliornaid yw Pabyddiaeth, ac yr ydym ninau ymddiddi eyall yn cael ein gorfodi i edweud yr un peth. Yn awr yma, os nad ydym y dull ydym wedi son am dano amgen na ffordd anghywir, anuheg ac anglyfiawn i gael allan, ac er gweled a deall yn amlwg gan hwy y mae y gwirioneddd, y lawn yn rhaid i ni gael rhyw fesn prawd arall, a phete edym hwnw? Wel, mewn amcbnad, dywedwn y gair dwylad; nen yn benad oll dysgeidiaeth

Iesu Grist, fel y mae ar lawr yn yr Efengylau, y rhai a ysgrifenwyd gan dystion geirwir ac onest, ac nid at erthyglau ffydd yr eglwys hon a'r eglwys arall. Ond meddai ein cyd-gristnogion am danom ni, fel enwad crefyddol, (neu anghrefyddol fel y dywaid rhai) "yr ydych chwi yn gwadu y prif athrawiaethau, neu y prif wirioneddau, sydd yn cael eu gosod allan yn y gair dwyfol." Yn awr ni gawn sylwi ar y gwahanol gyhuddiadau ydym wedi son am danynt yn y dechreu.

Yn y lle cyntaf, fe ddywedir fod yr Undodiaid yn gwadu dwyfoldeb ein Harglwydd Iesu Grist. Y mae yn dra sicr i fod miloedd yn dwyn y cyhuddiad uchod yn ein herbyn, heb feddwl dim am y geiriau hyny o eiddo Apostol Mawr y Cenhedloedd, sef, "Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda." O ganlyniad y maent yn cymeryd yn ganiatâol, fod yr hyn y mae hwn a'r llall yn ddweud am danom yn wir; ydyw, y mae yn wirionedd anwadadwy nad yw llawer o'r cyfryw hyny sydd yn haeru yn ddifloesgni mai syniadau cyfeiliornus a damniol ydym ni yn eu llettya, yn gwybod pa beth ydynt! Ond i ddyfod at y pwngc. "Beth sydd i feddwl mewn gwirionedd, neu ynte beth ydym ni yn ddeall wrth ddwyfoldeb ein Harglwydd Iesu Grist?" Hyn yma.

Yr ydym yn credu yn drwyadl yn nwyfol ddanfoniad yr Iesu. Yr ydym yn credu ei fod wedi cael ei osod yn ei swydd oruchel trwy appwyntiad dwyfol: ei fod ef yn llefaru gydag awdurdod dwyfol. Yr ydym yn credu fod Duw, mewn ystyr neilldiol, yn trigo ynddo, iddo ef amlygu ei hunan trwyddo i berffeithrwydd i feibion a merched dynion, ac iddo roddi ei ysbryd ei hunan iddo tufaes i fesur. Yr ydym yn credu mai yr Iesu yw y darlun perffeithiaf, a chynrychiolwr (representative) Duw at ddyn. Ac felly pan yr ydym yn ei weled Ef yr ydym ar yr un pryd yn gweled ac yn adnabod ei Dad Ef a'n Tad ninau, ei Dduw Ef a'n Duw ninau. Darfu i'n Tad ymweled â'r byd a thrigo, fel y gallwn ddweud, ymhlith dynion yn fwy neilldiol trwy'r Iesu na thrwy neb arall. Trwy'r Iesu yr ydym yn clywed ein cyfaill goreu, a'n cymwynaswr tragwyddol yn llefaru ac yn gweithredu trwyddo pan yn cyflawni ei holl weithredoedd. Pan yn cyflawni gwyrthiau, yr ydym yn gweled y Tad yr un mor amlwg yn gweithredu trwyddo. Mewn gair, yr ydym yn credu, fel y dywedasom yn barod, mai Efe yw y darlun perffeithiaf o'r anweledig Dduw, o ganlyniad yr ydym yn credu yn nwyfoldeb ein Harglwydd Iesu Grist yn yr un ystyr ag y mae (neu a ddylai) y *term* yn cael ei arferyd bob amser, yr y'm yn meddwl, mewn perthynas iddo.

Ond gellir gofyn ymhellach, ymha fodd yr ydym ni yn gwahaniaethu oddiwrth ein cyd-gristionogion ynte? Wel, yr ydym yn gwahaniaethu oddiwrthynt yn yr ystyr ganlynol: sef, tra yr ydym ni yn anrhydeddu yr Iesu fel Mab, ac fel Cenadwr neilldiol y Tad, nid ydym yn credu ei fod yn ogyfuwch âg Ef, neu ynte mai Duw Hollalluog ydyw. Yr ydym yn credu, ac am hyny yr ydym yn haeru yn ddifloesgni, mai dau fod gwahanol ydyw'r Iesu a'r Tad, ac nid un mewn haufod, ond un mewn amcan a chydweithrediad er daioni ac er achubiaeth y teulu dynol. Mr. Gol., y mae yn rhaid i ni fanylu cryn dipyn ar y pen hwn. Yr ydym yn hyderu y bydd i'r darllenydd faddeu i ni am wneuthur hyny, oblegid er cymaint o ddadleuon sydd wedi cymeryd lle yn yr amser sydd wedi myned heibio, y mae rhyw luaws hyd y ddydd heddyw, heb amgyffred yn iawn beth ydyw y gwahaniaeth sydd rhwng y naill barti a'r llall, er eu bod, ar yr un pryd, yn condemnio y naill, ac yn cymeradwyo y llall.

Y mae athrawiaeth boblogaidd ein gwlad yn dysgu mai yr Iesu yw y Goruchel a'r Anfeidrol Dduw. Ei fod Ef a'r Tad, nid yn unig yn un mewn cariad, amcan, ac ewyllys da; ond yn llythyrenol felly ac ymhob ystyr; yn un âg Ef mewn sylwedd neu ynte mai un bod yw y ddau fod; "ac nid ydynt ddau, ond un ydynt," medd y gredo Athanasiaidd. Pwy bleutyn fusai yn eich credu chwi a minau pe buasem yn dweud wrtho fel hyn: sef, y mae yn rhaid i chwi gredu mai un ac un yw un." Wel, nid yw hyn yma yn fwy o wrthuni na'r esponiad a roddir ar yr athrawiaeth boblogaidd. Mewn gair, y mae yn ymddangos i ni yn athrawiaeth wrthun, afresymol, ac anysgrythyrol; oblegid amlwg yw nas gall y danfonwr a'r danfonedig fod yr un. Ac ar y pen hwn y mae iaith yr Iesu ei hunan mor bendant, ac mor amlwg, fel nad yw yn bosibl i neb a welant â'u llygaid, ac a wrandawant â'u clustiau, ei gamddeall. Nid yw Efe yn dywedyd, mewn cymaint ag un man, mai yr un bod yw Efe a'r hwn a'i danfonodd. "Ni ddaethum o honof fy hun." "Nis gallaf wneuthur dim o

honof fy hunan." "Fel yr wyf yn clywed yr wyf yn barnu, a'm barn i sydd gyfiawn, canys nid wyf yn ceisio ewyllys fy hunan, ond ewyllys yr hwn a'm danfonodd. Y Tad yr hwn sydd yn aros ynof ñ, Efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd." Yn awr, hyn yr ydym yn ei haeru, (ac am hyny yr ydym yn cyfeiliorni fwyaf, medd ein gwrthwynebwyr): sef, nas gall fod mai yr Iesu oedd y Duw oddiwrth yr hwn y daeth Ef i'r byd; ond mai bod arall a gwahanol ydyw, ac yr ydym yn synu ac yn rhyfeddu wrth feddwl fod neb yn gwrthwynebu y fath wirionedd anwadadwy. Y mae yr athrawiaeth hono sydd yn dysgu, mai yr Hollalluog Dduw oedd yr Iesu yr hwn a gafodd ei eni yn Bethlehem, yr hwn fu yn bwytta ac yn yfed, yr hwn a ddioddefodd ac a gafodd ei groeshoelio yn y pen draw, yr hwn a ddaeth oddiwrth Dduw, a'r hwn oedd yn gweddio arno, yr hwn oedd yn gwneuthur ei ewyllys Ef, ïe, yr hwn a ddywedodd ar ei ymadawiad â'r byd presenol wrth Mair, "Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i, a'ch Tad chwithau, a'm Duw i, a'ch Duw chwithau," yn wrthun i'r eithaf. Y mae yr athrawiaeth sydd yn dysgu mai y Goruchaf Dduw ydyw yr hwn a ddioddefodd newyn a syched, ac a gynyddodd mewn ffafr gyda Duw a dynion, yn ymddangos i ni yn groes, ïe, yn hollol groes i reswm, ac i haeriadau pendant yr Ysgrythyrau, ac am hyny, ac nid am ddim arall, yr ydym yn ei gwrthod, ac yn sefyll yn gadarn o blaid yr athrawiaeth ogoneddus o *un Duw, y Tad.* Yr ydym, y mae yn wir, yn cael ein cyhuddo o iselau y Messiah, ond os yw y sarhad, neu y gwarth hwn i gael ei osod wrth ddrws rhyw rhai, yr ydym yn cael ein tueddu i ddweud mai wrth ddrws y cyfryw hyny sydd yn ein camgyhuddo, wrth ddrws y rhai sydd yn dysgu athrawiaeth mor wrthwynebol, ac mor groes i'r athrawiaeth hyny sydd yn cael ei ddysgu gan Moses a'r Prophwydi, Crist a'i Apostolion, y dylai gael ei osod, ac nid arnom ni, y rhai ydym yn cerdded ar hyd yr un llwybr a Iesu Grist ei hunan, yn hyn o beth o'r hyn lleiaf. Yr ydym yn ei gael Ef bob amser, ac o dan bob amgylchiad, yn ymostwng i Dduw, fel mab ufudd a gostyngedig. Y mae ar bob achlysur priodol yn gwahaniaethu ei hunan oddiwrth y Tad. Y mae yn priodoli ei holl alluoedd i'r Tad, yr hwn a'u rhoddodd; ydyw, y mae yn dweud "Mae'r Tad yn fwy na myfi." "Nis gallaf wneuthur dim o honof fy hunan," &c. Ac os ydym yn diraddio yr Iesu trwy ei osod allan fel bod gwahanol i'r Tad, ac yn îs nag Ef, ïe, os ydym ni yn cael ein ystyried fel yn rhai ag sydd yn diraddio y Messiah trwy hyny gan ein gwrthwynebwyr, bydded iddynt osod y gwarth ar ben yr hwn y mae yn perthyn iddo, ac nid arnom ni, ond ar ein Meistr os mynant, yn iaith yr hwn, ac hyd yn nod yngeiriau yr hwn, yr ydym yn gosod allan ein syniadau, ïe, geiriau yr hwn ni ddylem, er dim, gamddarlunio na gwneud anghyfiawnder a hwynt. Ni chaniatâ amser i ni wneud rhagor o sylwadau ar y pen hwn. Ond cyn taflu o'r neilldu ein pin ysgrifenu, gofynwn: Ai gormod i ni ddysgwyl i'r cyfryw hyny sydd yn ein condemnio, i chwilio i mewn i'r Beibl, ac nid i erthyglau ffydd a chredoau dynion ffaeledig fel ni ein hunain, er deall, a cael gweled yn iawn, pa un a oes yno sail i'r hyn ydym yn ei ddweud neu peidio? Gwaith hawdd iawn gan rai dynion yw collfarnu eraill; ond nid yw mor rhwydded gwaith i ddangos ymha beth y mae gwrthrychau eu digasedd yn gyfeiliornus. Ac yr ydym yn meddwl, pe bai y cyfryw hyny sydd yn dweud am danom ein bod yn gwadu dwyfoldeb yr Iesu, yn chwilio i mewn er cael allan a deall ein syniadau ar y pwnge, y buasent yn gweled mai hwy ac nid nyni sydd gamsyniol.

E. W. L.

YMDDIDDAN RHWNG YR ATHRONYDD A'R RABBI.

"Y MAE eich Duw chwi yn ei lyfr yn galw ei hun yn Dduw eiddigeddus, yr hwn nis gall oddef un Duw arall heblaw ei hunan, ac y mae ar bob amser yn dangos ei atgasrwydd tuag at eilunaddoliaeth. Sut, dywedwch, y mae efe ynte yn bygwth, ac yn ymddangos fel pe byddai yn cashau, addolwyr y duwiau gau yma yn fwy na'r duwiau gau eu hunain?" "Yr oedd gan ryw frenin." attebai'r Rabbi, "fab anufudd. Ac ymhlith ystrangeiau distadl eraill o wahanol fathau, yr oedd hwn yn arferol o roddi i'w gŵn enw a theitlau ei dad. A ddylasai y brenin ddangos ei anfoddlonrwydd i'r tywysog neu ynte i'r cŵn." "Da iawn," meddai'r athronydd: "ond pe byddai eich Duw chwi yn distrywio gwrthrychau gau-addoliaeth, buasai yn symmud ymaith y temtasiwn

i hyny." "Ie, yn wir," meddai y Rabbi, "pe byddai'r ffyliaid yn addoli y pethau hyny yn unig ag nad ydynt o un diben ond yr hyn y mae eu ffolineb hwynt yn gwneuthur a hwy, yna buasai'r delwau bob amser mor ddiwerth ag ydyw y ddelw-addoliaeth yn wrthrych dirmyg. Ond y maent hwy yn addoli yr haul, y lloer, llu'r nef, afonydd, y môr, yr awyr, y tân, &c. A fynnech chwi gan hyny i'r Creawdwr er mwyn y ffyliaid hyn, i ddistrywio ei weithredoedd ei hunan, ac aflonyddu y cyfreithiau a appwyntiwyd i natur gan ei ddoethineb ef ei hunan? Os digwydd i ddyn ladratta hâd, a'u hau hwynt, a ddylasai dim o'r had dyfu o'r ddaear oblegid eu bod wedi eu lladratta? O, na! y mae'r Creawdwr doeth yn gadael i natur redeg ei chwrs; oblegid ei appwyntiad ef ei hunan ydyw ei chwrs hi. A beth os ydyw plant ffolineb yn ei gam-arfer i ddrygioni? Nid yw dydd y cyfrif ddim yn mhell, ac fe ddysg dynion pryd hyny y bydd i'w gweithredoedd ail-ymddangos hefyd yn eu canlyniadau, yn ol rheol mor sicr a'r hon y mae'r eginin yn ei ddilyn, wrth godi oddiwrth yr hedyn llafur sydd wedi ei gladdu."—*Allan o'r "Hebrew Tales."*

TRIOEDD BRAINT A DEFOD.

Mr. Gol.,—Os nad ydyw'r *Trioedd* a ganlyn wedi ymddangos eisioes yn yr Ymofynydd, byddaf yn ddiolchgar os rhoddwch le iddynt mewn rhyw gongl o'ch Cyhoeddiad. Cymerwyd hwynt allan o *Lyric Poems* Edward Williams, (Iolo Morganwg), cyhoeddedig yn y flwyddyn 1794. Trwy gydsynio a'm cais rhoddwch foddhad i lawer eraill o edmygwyr yr hen Iolo, heblaw

Yr eiddoch, &c., Y.

1. Tri chyntefigion Beirdd gorseddog Ynys Prydain, *Plennydd*, *Alawn*, a *Gwron*.

2. Am dri achos y gelwir y Beirdd, yn *Feirdd wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain;* yn gyntaf, am mai yn Ynys Prydain y cafwyd Barddoniaeth gyntaf; yn ail, na chafwys un gwlad arall erioed ddeall gyfiawn ar Farddoniaeth; yn drydydd, am nas gellir cynnal Barddoniaeth gyfiawn eithr ym Mraint Defodau a Llafar Gorsedd *Beirdd Ynys Prydain*, ac am hyn, o ba wlad bynnag y b'ont, *Beirdd wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain* a'u gelwir.

3. Tri chôf Beirdd Ynys Prydain, Côf Cân; Côf Llafar Gorsedd; a Chôf Defod.

4. Tri rhyw Beirdd Ynys Prydain, Prifeirdd er cyn Cred, a gwedi Cred, Beirdd Beli a'r Oferfeirdd.

5. Tri rhyw Prifeirdd y sydd, *Bardd Braint*, neu *Brifardd Pendant*, wrth Fraint Defod, a Llafar Gorsedd; a'i swydd i'w llywodraethu: *Ofydd*, wrth Awen, ymgais a dichwain; a'i swydd yw Awenyddu: a *Derwydd*, wrth Bwyll, Ansawdd, a Gorfod; a'i swydd yw Athrawiaethu.

6. Tair Braint Beirdd Ynys Prydain; Trwyddedogaeth lle'r elont; nas dyccer arf noeth yn eu herbyn; o gair eu gair hwy ar bawb.

7. Tair diben Barddoniaeth, Gwellhau moes a defod; cynnal heddwch; a moli pob daionus a rhagor.

8. Tripheth a waherddir i Fardd, dwyn anfawl; dwyn anfoes; a dwyn arfau.

9. Tri modd addysg Beirdd Ynys Prydain, Addysg Llafar, Cân, a Defod, wrth fraint Gorsedd.

10. Tri llawenydd Beirdd Ynys Prydain, Llwydd Gwybodaeth, Gwellhad moes, a gorfod Heddwch ar ddifrod ag Anraith.

11. Tri cheinmyged Beirdd Ynys Prydain, gorfod dysg ar annysg, gorfod pwyll ar amhwyll, a gorfod heddwch ar ddifrod ag anraith.

12. Tri angeneddyl Beirdd Ynys Prydain, amlygu gwir a'i ddosparth; cynnal côf mawl am a fo daionus a rhagor; a gyrru heddwch ar ddifrod ag anraith.

13. Tri angenwrthun Beirdd Ynys Prydain, Cêl gan orfod er heddwch a lles; Cwyn anfawl gan raid Cyfiawnder; a noethi Cledd ar ddifrod ag anraith

14. Tri pheth nid oes a êl yn eu herbyn, defod gorsedd; cân gorsedd; a llafar gorsedd.

15. Tri pheth a ddylai Bardd eu cynnal, y Iaith Gymraeg, y Brif-Farddoniaeth, a chôf am bob daionus a rhagor.

16. Tri pheth nis gellir Bardd hebddynt, awen wrth gerdd, gwybod cyfrinach Barddas, a chynneddfau da.

17. Tair deddf-ochel y sydd ar Fardd; gochel diogi, can mai gwr wrth ymgais ydyw; gochel cynnen, can mai gwr wrth heddwch ydyw; a gochel ffolineb, can mai gwr wrth bwyll ydyw.

18. Tair cenedl a lygrasant, a fu ganthynt ar ddysg o Farddoniaeth Beirdd Ynys Prydain, drwy gymmysg oferbwyll, ac o hyny a'i collasant; y *Gwyddelod*, *Cymmry Llydaw*, a'r *Ellmyn*.

Gohebiaethau.

At y Golygydd.

ANWYL SYR,—Trwy ddarllen eich Misolyn rhyddgarol, credwyf eich bod chwi, a'ch Gohebwyr deallus, yn barod i estyn cynorthwy i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, ac eraill sydd a'u hymgais i gael allan wir feddwl yr Ysgrythyrau, trwy egluro rhyw rhanau a fo'n ymddangos yn dywyll iddynt hwy. Felly dymunaf finnau gael ychydig o eglurhad ar yr hyn a ganlyn, sydd i'w gweled yn Eph. ii. 2, sef, "tywysog llywodraeth yr awyr." Y gofyniad yw beth oedd Paul yn feddwl wrth y "tywysog llywodraeth yr awyr" uchod? Ateb buan a fawr foddhâ eich cyson a'ch diffuant ddarllenydd.

WM. DAVIES.

Bettws, Bledrws, Ceredigion.

At y Golygydd.

MR. GOL.,—A fyddwch chwi mor garedig a rhoddi lle yn yr YMOFYNYDD i'r hyn a ganlyn?

Yr eiddoch yn barchus,

HOMO DDU.

Annerchiad i Mr. Jenkin Evans, Pencofiadur Gwaith y Dinas, pan yn derbyn Anrheg o Blwch o offerynau darlunio, gan Gyfrinfa Odyddol a gynelir yn y Star Inn, Ystradyfodwg, am ei ffyddlondeb a'i gywirdeb fel Ysgrifenydd i'r gymdeithas uchod.

Mr. Llywydd a Brodyr oll,—Yr ydym wedi cael cyfleustra digonol am lawer o flynyddoedd i sylwi ar ymddygiad ein Ysgrifenydd parchus, ac yr ydym oll, yn ol pob tebygolrwydd, yn llawen o'r adeg bresennol i'r dyben o'i gydnabod yn gyhoeddus â rhyw flaenffrwyth o'n cymeradwyaeth wresog am ei ymdrechion difrif a llwyddianus er egluro egwyddorion brawdgarwch, a dwyn yn mlaen amcanion dyngarol trwy ddefnyddio pob moddion cyrhaeddadwy er gwelliant ein cymdeithas. Yr ydym wedi cael cyfleustra helaeth yn ystod hirfaith flynyddau i graffu ar ymddygiadau ein Ysgrifenydd, nid yn unig yn y Gymdeithas hon eithr yn mhob cysylltiad arall y mae efe yn troi ynddo. Pe buasai wedi ffafrio yn annheg neu yn ormesol ar un o aelodau'r Gymdeithas, buaswn yn debyg o fod wedi clywed; ond cyfiawnder ydyw ei reol ef, wrth ba un y gweithreda bob amser. Ond fy nghasgliad i yw, ein bod oll o'r un farn am dano, sef ei fod yn ddyn o ymddiried, cywir, a gonest.

Pe canfyddaswn fod amcan ein Ysgrifenydd i'w hunan-lesoli ar draul ein colledu, ni fuaswn yn codi i wneud yr un sylwad ar yr achlysur presennol. Ond yn hollol i'r gwrthwyneb yr ydym wedi ei gael bob amser; er enghraifft yr ydym

wedi ei gael, mewn cysylltiad a'r anrheg bresennol, yn dewis un llai ei werth, ac yn cynnyg talu ei ran er gwneud y swm i fynu. Ond teimlaf yn dra llawen fod genym ddynion yn y Gymdeithas a'u llygaid fel llygaid yr eryr er canfod teilyngdod un a fo wedi ein gwasanaethu mor ffyddlon a chywir am gymaint o flynyddoedd, dan lawer o anfanteision, yn enwedig er pan yr ydym wedi dechreu adeiladu.

Rhodd fechan ydyw, mae'n wir, ynddi ei hun; ond mae yn weddol dda ag ystyried ein hamgylchiadau fel gweithwyr gan mwyaf. Ond llawer, ïe, llawer mwy ei gwerth am ei bod yn dystiolaeth o uniawn a ffyddlawn wasanaeth. Fy ngobaith, Mr. Evans, yw ar i'r rhodd fechan hon fod fel canllaw i'ch cadw fel arferol ar lwybr uniondeb, yngwyneb pob profedigaeth a ddichon ddyfod i'ch cyfarfod, ac i'ch adgofio o'ch dyledswydd tuag at Dduw a dyn; ac yr ymdrechwch i gadw yn eich meddiant hyd ddiwedd eich oes yr uchel gymeriad yr ydych wedi ei enill, trwy weithredu yn unol â phob peth sydd yn tueddu i ddedwyddoli dyn, mewn cyssylltiad â'r gweithredoedd yna o'ch eiddo ag a deilyngodd i chwi y gydnabyddiaeth bresennol yr ydych wedi ei derbyn. Yr ydym yn dymuno cydnabod eich teilyngdod a'r anrheg bresennol.

Hyderaf y cewch fyw lawer o flynyddoedd i weini eich dyledswydd ddefnyddiol a dirodres fel Ysgrifenydd i'r gymdeithas hon, ac y trosglwyddwch yr anrheg hon i'r rhai fydd anwylaf genych, er cymelliad iddynt hwythau i ddilyn eich esiampl, ac i'w tueddu i gyflawni eu dyledswydd yn mha sefyllfa bynag y rhyngo bodd i Dduw eu gosod.

Hyn yw gwir ddymuniad eich anwyl frawd, HOMO DDU.

Ystafell Aaron.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y LLYS.—Y mae'r Frenhines a'r llŷs yn para i aros yn Osborne. Fel rhyw weddw afiail dan gyffelyb amddifadiad, a mwy felly, ddichon, nâ'r cyffredin oherwydd amgylchiadau neilluol, mae ei Mawrhydi fel y gallesid disgwyl yn bur bruddaidd a hiraethlon, ac yn dewis byw mor dawel ac mor anghyhoedd ag y caniateir gan amgylchiadau ei sefyllfa. Ond y mae yn dda genym weled fod arwyddion tra boddhaol o'i bod, serch ei thrallod, yn teimlo yn alluog ac yn benderfynol i wynebu ar ofalon pwysig y deyrnas a'r teulu Brenhinol. Y mae Tywysog Cymru, yr hwn a ddaw i'w oedran Tachwedd nesaf, newydd cychwyn ar ymdaith i ymweled â'r Aipht a Chanaan a gwledydd dwyreiniol eraill. Canon Stanley, yr hwn sydd wedi hynodi ei hun am ei ddysg a'i wybodaeth o ansawdd ac hanesiaeth y dwyrain, gafodd yr anrhydedd o gael ei appwyntio yn gydymmaith i'r Tywysog. Disgwylir yr ail fab, y Tywysog Alfred, i ddychwelyd adref cyn diwedd mis Mawrth. Anfonasid i'w alw adref yn union ar farwolaeth ei dad; ond digwyddodd i'r hyspysiad ddyfod yn rhy ddiweddar i'r orsaf, lle y disgwylid ei fod yn yr India Orllewinol; yr oedd y llong oedd y Tywysog ynddi hwylio tua'r Môr Tawel.

CYTTUNDEB PRIODAS Y DYWYSOGES ALICE A'R TYWYSOG FREDERICK O HESSE.—Y mae cyttundeb priodas rhwng y Dywysoges Alice a'r Tywysog Frederick o Hesse wedi ei gyhoeddi. Dechreua y cyttundeb gyda'r geiriau, "Yn enw y Drindod Sanctaidd a Bendigedig," a diwedda gydag enwau y dirprwywyr a appwyntiwyd gan y Frenhines a'r Uchel Ddug o Hesse. Telir treuliadau y sefydliad teuluaidd unedig allan o'r arian a ganiateir i'r priodfab, sef 40,000 o fflorins yn y flwyddyn, a llôg cynnysgaeth priodas y Dywysoges Alice, sef 30,000p. Y mae ei Mawrhydi yn sicrhau i'w merch o amser ei phriodas y swm blynyddol o 6,000p. i gael eu derbyn gan y dirprwywyr a enwir gan y Frenhines, at wasanaeth personol y Dywysoges.

Y WEINYDDIAETH. — Y mae yn hawdd gweled fod y cyfartalrwydd a ffynai yn ddiweddar rhwng y *Tories* a'r Rhyddfrydwyr (*Liberals*) yn Nhŷ y Cyffredin yn newid yn gyflym yn ffafr y blaenaf. Bydd y blaid ag sydd wedi

enill cymaint o nerth ychwanegol trwy yr etholiadau diweddar, ond odid, i wneud y defnydd goreu o'r amgylchiad; ac felly bydd y weinyddiaeth bresennol i golli eu hawdurdod cyn bo hir. Pa fodd bynag nis byddai ond ofer i ddisgwyl y bydd i unrhyw gynnygiad diwygiadol gael ei bassio yn y Senedd bresennol. Hyd yn hyn ni wnawd un ymosodiad union-gyrchol; ond bernir yn gyffrediuol, er gwaethaf yr yspryd goddefgar a amlygwyd gan y blaid wrthwynebol at y llywodraeth er dechreuad yr eisteddiad presennol, fod oes y weinyddiaeth bresennol bron a dyfod i ben. Y mae y Prif Weinidog eisoes wedi roddi awgrymiad i'r pwrpas na bydd iddo ef a'i gydweinidogion, fel corph, roddi eu swyddi i fynu heb yn gyntaf appelio at y wlad; ac felly gŵyr Arglwydd Derby a'i gefnogwyr mai trwy gyfrwng etholiad cyffredinol y cant wybod pa un ai ydyw y wlad yn barod i wrandaw ar eu haddewiddion, ac i roddi ail brawf arnynt. Gan hyny credir fod etholiad cyffredinol yn anocheladwy. Os cymer etholiad cyffredinol le yn ystod y misoedd nesaf, y mae yn sicr o fod yn ymdrechfa galed, ac o esgor ar derfysgoedd na welwyd eu bath mewn etholiadau. Yr ydys eisoes wedi cael blaenbrawf o hyn yn y terfysgoedd dychrynllyd a gymmerasant le yn ddiweddar yn Great Grimsby a Lincoln, y manau sydd wedi dychwelyd aelodau Toryaidd.

Agoriad y Senedd.—Dydd Iau, y 6ed o Chwefror, agorwyd pedwarydd eisteddiad chweched Senedd y Frenhines Victoria, gan ddirprwyaeth frenhinol. Oherwydd absenoldeb y Frenhines, a'r galar a deimlid ar ol marwolaeth y Tywysog Cydweddog, nid oedd y cynnulliad yn lluosog na dim braidd o'r gwychder arferol; ond pob peth yn dawel ac yn weddaidd. Darllenwyd yr Araeth gan yr Arglwydd Ganghellydd. Nid ydys yn gosod llawer o bwys ar areithiau brenhinol. Ond gan y proffesa'r araeth nodi sefyllfa a pherthynasau'r wladwriaeth ar y cyfnod prysur hwn, ynghyd â chymaint ag y welid yn gymmwys i'w amlygu ynghylch cynlluniau a ddarpariadau y Weinyddiaeth yn bresennol, dichon y bydd yn dda gan lawer o'n darllenwyr i gael y cyfieithiad o honi a ganlyn.

ARAETH Y FRENHINES.

Fy Arglwyddi a Boneddigion,

Gorchymynai ei Mawrhydi i ni sicrhau i chwi fod ei Mawrhydi yn credu y teimlwch yn ddwys oddiwrth y golled fawr ac anadferadwy a gafodd ei Mawrhydi trwy farwolaeth anamserol ei hanwyl briod, yr hwn a fu yn gysur a chefnogaeth iddi.

Modd bynag, cysurwyd ei Mawrhydi, tra yn dioddef yn drwm o dan yr oruchwyliaeth chwerw hon o eiddo Rhagluniaeth, wrth dderbyn oddiwrth bob dosbarth o'i deiliaid y tystiolaethau gwresocaf o'u cydymdeimlad â hi yn ei thrallod, yn gystal ag o'u parch i gymmeriad arderchog yr hwn ag y mae ei Mawrhydi a'r genedl yn gyffredinol yn galaru am fawredd eu colled am dano.

Gorchymynir i ni gan ei Mawrhydi i sicrhau i chwi ei bod yn hyderus yn gofyn eich cymmorth a'ch cynghor.

Y mae perthynasau ei Mawrhydi a'r holl Alluoedd Ewropaidd yn parhau yn gyfeillgar a boddhaol, a hydera ei Mawrhydi nad oes un achos i ofni i heddwch Ewrop gael ei derfysgu.

Cododd dadl bwysig iawn, a'r hon a allasai arwain i ganlyniadau difrifol iawn, rhwng ei Mawrhydi a llywodraeth Unol Daleithiau America, o herwydd attafaeliad a symmudiad treisiol pedwar o deithwyr oddiar long llythyrfa Brydeinig gan gadben un o longau rhyfel yr Unol Daleithiau; ond y mae y ddadl hono wedi ei therfynu yn foddhaol trwy adferiad y teithwyr i amddiffyniad Prydain, a thrwy waith Llywodraeth yr Unol Daleithiau yn ymwrthod â'r weithred dreisiol a gyflawnwyd gan eu swyddog llyngesol. Gan hyny, nid ydyw y perthynasau cyfeillgar rhwng ei Mawrhydi a Llywydd yr Unol Daleithiau wedi derbyn un niwed.

Y mae ei Mawrhydi yn gwresog werthfawrogi y teyrngarwch a'r ysbryd gwladgarol a amlygwyd ar yr achlysur hwn gan ei deiliaid yn Ngogledd America.

Y mae y camweddau a gyflawnwyd gan amrywiol bleidiau, a chan lywodraethau olynol yn Mexico, ar ddieithriaid sydd yn preswylio o fewn tiriogaeth Mexico, ac am y rhai nis gellid cael un iawn boddhaol, wedi peri i'w Mawrhydi wneud cyttundeb âg Ymherawdwr y Ffrangcod, a Brenhines Yspaen, i'r diben o reoli cydweithrediad unedig ar lenydd Mexico, gyda'r amcan o gael yr iawn hwnw sydd hyd yma wedi ei attal.

Gosodir y cytundeb hwnw a'r papurau perthynol iddo o'ch blaen.

Y mae y gwelliant sydd wedi cymmeryd lle yn y perthynasau rhwng llywodraeth ei Mawrhydi a llywodraeth Ymherawdwr China, a'r ffyddlondeb â pha un y mae llywodraeth China wedi parhau i gyflawni ammodau

cyttundeb Tientsin, wedi galluogi ei Mawrhydi i gymmeryd ei milwyr o ddinas Canton, ac i leihau ei gallu ar y glenydd ac yn y moroedd Chineaidd.

Y mae ei Mawrhydi, gan ei bod bob amser yn awyddus i ãnfer ei dylanwad er cadwraeth heddwch, wedi gwneud cyttundeb â'r Sultan o Morocco, trwy yr hwn y galluogwyd y Sultan i godi y swm angenrheidiol er cyflawni ammodau cyttundeb pennodol a wnaethid rhyngddo ef ac Yspaen, a thrwy hyny i ochelyd y perygl o adnewyddiad rhyfel â'r gallu hwnw. Gosodir y cyttundeb hwnw a'r papurau perthynol iddo ger eich bron.

Foneddigion o Dŷ y Cyffredin,—

Gorchymyna ei Mawrhydi i ni hysbysu i chwi ei bod wedi peri i'r amcangyfrifon (*estimates*) am y flwyddyn ddyfodol gael eu gosod o'ch blaenau. Y maent wedi eu ffurfio gyda gofal doeth am gynnildeb ac am effeithioldeb y gwasanaeth cyhoeddus.

Fy Arglwyddi a Boneddigion,—

Gorchymyna ei Mawrhydi i ni hysbysu i chwi y gosodir ysgrifau er gwellhau y gyfraith o'ch blaen, ac yn eu plith hwynt y bydd ysgrif i wneud y dangosiad o hawl i dir yn fwy syml, a'i drosglwyddiad yn hawddach.

Gosodir ysgrifau ereill o ddefnyddioldeb cyhoeddus perthynol i Brydain Fawr a'r Iwerddon o dan eich ystyriaeth.

Y mae ei Mawrhydi yn gofidio o herwydd bod achosion neilluol wedi cynnyrchu cryn wasgfa a chaledi yn mhlith y dosbarthiadau llaw-weithfaol mewn rhai rhanau o'r Deyrnas Gyfunol; ond y mae gan ei Mawrhydi bob lle i gredu fod sefyllfa gyffredinol y wlad yn dda a boddhaol.

Y mae ei Mawrhydi yn hyderus gyflwyno achosion cyffredinol y genedl i'ch doethineb a'ch gofal, ac y mae yn gweddio yn daer ar i fendith yr Hollalluog Dduw ddilyn eich hymbwylliadau, a'u harwain hwynt i gynnyddu llwyddiant a dedwyddwch ei deiliaid.

Wedi ymgyfarfod o'r ddau Dŷ, ar ol y gohiriad arferol, cyttunwyd a'r annerchiad mewn attebiad i araeth y Frenhines, yn hollol ddiwrthwynebiad; gymaint felly ag i roddi lle i ddisgwyl am heddwch, tros ryw dymmor, rhwng y pleidiau.

Y "Code" newydd, a chynnygiadau eraill.—Er fod Sir J. Trelawny wedi dwyn i mewn etto ei ysgrif dros ddileãd y Dreth Eglwys, ac wedi llwyddo i gael ei darllen am y tro cyntaf, nid oes neb braidd yn meddwl yr ettyb un dyben ymhellach na chadw'r peth yn fyw ac yn barhaus ger bron y wlad. Rhaid disgwyl dipyn etto cyn cael gwybod pa gynllun a fwriada Mr. Gladstone gynnyg gyda golwg ar gyllid a threthi'r wlad. Ni wyddys pa beth all ddigwydd rhwng y pleidiau cyn delo'r Pasg; ac y mae'r Pasg yn digwydd bod yn o ddiweddar eleni. Y mae'n bur debyg mai ar faes y ddadleuaeth ynghylch y *revised code*, (neu'r "code newydd" fel ei gelwir), y digwydd y frwydr benderfynol gyntaf rhwng y pleidiau Seneddol. Sylfaenid y *code* yma ar adroddiad a chyngor y Dirprwywyr a appwyntiwyd i chwilio i mewn i addysgiaeth y wlad, mewn perthynas yn neillduol â'r ysgolion oeddent yn derbyn tâl oddiwrth y llywodraeth. Yn eu hadroddiad cafwyd fod y drefn yn wallus, a'r addysgiaeth ar y cyfan yn amherffaith iawn, yn ngwyneb y swm anferthol ag oeddid yn talu yn flynyddol tuag at hyny. Yn ôl y cynnygiad newydd, ni roddir tâl bellach ond i'r ysgolion hyny a geir eu bod yn dysgu y plant yn dda ac yn effeithiol. Y mae ysgolfeistri a chymdeithasau ag oeddent yn disgwyl elw parhäus oddiwrth yr hen drefn, wedi bod yn achwyn ac yn petisiyno yn daer yn erbyn ei chyfnewid, fel pe buasai yn etifeddiaeth iddynt hwy. Ond sylwodd Mr. Lowe ynghylch hyny, yn Nhŷ y Cyffredin, nad oedd y drefn gyntaf, ar y goreu, ond math o brawf-gynllun; ac iddi ddyfodi i fodolaeth rywbeth yn debyg i'r dyn a ddigwyddodd alw i ymweled â chyfaill: ond wedi galw, a arosodd gydag ef am ddeng mlynedd ar hugain. Rhagor am y matter pwysig yma, yn ein nesaf o bosibl.

Dr. Rowland Williams, &c.—Mae ein cydwladwr enwog, Dr. Williams, heb aros am gyhoeddiad dedfryd y *Court of Arches*, wedi rhoddi hysbysiad y bydd iddo ef roddi i fynu ei swydd Athrawol yn Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr, Gwyl Ifan nesaf. Beth mae yr Esgobion a'r rhai a'u gyrant yn y blaen, yn ei feddwl, wyddys? Y mae un arall o'r Traethodwyr hynod wedi ei ddwyn i'r dalfa, y Parch. H. B. Wilson, Ficer Great Staughton. Y mae yntau yn awr yn sefyll ei dreial am heresi yn llŷs yr Archesgob. Yr oedd yr erthyglau i gael eu cynnyg yn ei erbyn, ger bron Dr. Lushington ar y 22ain o Chwefror. Saith oedd nifer y Traethodwyr; un o honynt, Mr. Goodwin, nid yw wedi bod oll o fewn gafael disgyblaeth Esgobawl; un arall, y Parch.

Baden Powell, sydd wedi myned maes o gyrhaedd pob erlynwyr daearol. Ond nid â y pethau yma heibio heb adael effeithiau neillduol ar eu hôl, ar feddyliau dynion.

DAMWEINIAU ERCHYLL ETTO.

Dyna sydd, y dyddiau hyn yn enwedig, yn llenwi rhan fawr o'n newyddiaduron, ydyw hanes rhyw ddamwain fawr neu fach, wedi digwydd yn rhywle neu gilydd bron bob wythnos.

Boreu dydd Mercher, y 12fed o Chwefror, torodd y dwfr i mewn i fŵn-waith Bryn Gwiog gerllaw Treffynnon, yn y Gogledd, yn ddisymmwth, a boddodd *un ar bymtheg* o'r gweithwyr tra yr oeddynt gyda'u gorchwylion. Dim ond un ddiangodd, a hwnw mewn ffordd ryfedd iawn.

Ymhen wythnos yn gymmwys, ac o fewn cylch adnabyddiaeth ein darllenwyr, digwyddodd damwain mwy galarus etto. Ar y 19eg tua chanol dydd, trwy ffrwydiad tanchwa *(damp)* yn mhwll-glo Gethin, gerllaw Merthyr, collwyd 50 o fywydau. Mae ein gofod mor gyfyng, a'r hyspysrwydd sydd genym o'r achos a'r amgylchiadau mor amherffaith, fel nad allwn ymhelaethu.

AMERICA.—Nid oes dim ag sy'n benderfynol yn matter y rhyfel rhwng yr Undebwyr a'r Deheuwyr. Mae yr holl hanesion diweddar yn rhoddi ar ddeall fod yr Undebwyr yn ennill tir ar eu gwrthwynebwyr yn heinyf iawn; ac eu bod yn hyderus y bydd iddynt, cyn bo hir, lwyddo i lwyr ddarostwng y gwrthryfel. Yn wir os na lwyddant i wneud hyny cyn diwedd yr haf, cymmerir yn ganiattaol eu bod yn analluog i ddwyn hyny oddiamgylch, ac felly agorir drws i brif lywodraethau Ewrop ddyfod ymlaen i gyfryngu rhwng y pleidiau, er gwneuthur heddwch a rhyw fath o gyttundeb rhyngddynt.

Y CYFANDIR.—Yn allanol ymddengys pob peth yn dawel trwy Gyfandir Ewrop. Nid oes dim brwydro yr hyn lleiaf, oddieithr rhyw ychydig, fel arfer, rhwng y Tyrciaid a'r Montenegriaid. Mae ymgodiad parhaus yr afonydd yn Holland, Germany, ac Awstria wedi crëu dychryn, a gwneud dinystr mawr i fywydau a meddiannau—llawer o bentrefi dan ddwfr. Yn Vienna yn unig yr oedd y dosparth sydd dan ddwfr yn cynnwys 80,000 o bersonau, y rhai ydynt oll wedi gorfod ffoi o'u tai am eu bywydau. Hyspysir hefyd fod tua deng mil o Chineaid wedi colli eu bywydau trwy lifogydd anferthol yn California, America.

Bu Farw—

Mehefin 10fed, 1861, Mr. John Evans, Hirwaun, adnabyddus yn gyffredin wrth yr enw Shon William Evan, yn 74 oed. Cafodd iechyd rhagorol o dda trwy ystod ei fywyd, hyd o fewn ychydig i'w farwolaeth; cydnabyddai lywodraeth ei Dduw dan bob amgylchiad, gan hyderu yn ei gariad, ac ymostwng i'w ymweliadau, ac ymfoddloni i'w ewyllys Ef beth bynag a ddelai i'w gyfarfod. Yr oedd yn dderbyniwr cyson o'r YMOFYNYDD oddiar ei gychwyniad cyntaf hyd ei ddyddiau olaf; a diau ei fod yn ei ddarllen yn fanol er ymdrechu deall ei gynwysiad; a diddadl ei fod yn Undodwr trwyadl yn ei syniadau crefyddol, oblegid cyrchai yn aml i'r hen dŷ cwrdd, Aberdar, a hyny oddiar sêl a gwybodaeth diymwad, a chredai yn ddiysgog yn yr egwyddorion, eu bod yn werth i ddyn ymofyn am danynt, er ymfucheddu yn y byd hwn, ac yn rhoddi blaenbrawf o'r gwynfyd tragwyddol sydd yn aros pawb "a garant ei ymddangosiad Ef." Yr oedd yn hên ŵr parchus a chyfrifol gan bawb a'i hadwaenai, am ei ymarweddiad gonest, didwyll, a hŷ trwy ei holl oes. Yr oedd yn hoff iawn o farddoniaeth Gymreig; fel y mae amryw o'i gyfansoddiadau ar glawr yn bresenol, yn brawf o'i alluoedd yn y ganghen a nodwyd; yr oedd yn gyfaill gwresog i'r diweddar enwog fardd (Gwilym Harri), Penderyn. Gadawodd ar ei ôl ddau fab, pa rhai sydd yn addurn i'r gym'dogaeth lle y trigant, ac yn esampl i eraill i ymdebygoli iddynt. Y Mercher canlynol ymgynullodd tyrfa luosog i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref; a chyn cychwyn o'r tŷ cafwyd pregeth gymwysiadol ar yr achlysur gan y Parch. W. Williams, Hirwaun. Yna awd a'r trancedig i orwedd tua mynwent eglwys Penderyn, lle yr erys hyd ganiad yr udgorn diweddaf—

"Pan bydd dorau beddau y byd
Ar ungair yn agoryd."

JOHN JONES.

Ionawr y 30ain, 1862, yn y Casnewydd, Penybont, yn 78 mlwydd oed, ar ol byr gystudd, Cadogan Williams, Ysw. Adwaenid yr ymadawedig gan lawer o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, fel bonheddig hawddgar a charedig, Cristion deallus, hynaws a ffyddlon, ac Undodwr sêlog. Yr oedd yn aelod o deulu parchus ag sydd, am rai cenhedlaethau bellach, wedi dwyn mawr sêl dros ymneilldu aeth, a hawl pob dyn i farnu drosto ei hun, a thros grefydd resymol,

mewn cyssylltiad â Phresbyteriaid Cymru, a chylchoedd Penybont yn enwedig;—teulu a gynnwysa yr anghydffurfiwr enwog, y Parch. Rhys Price o'r Ty'nton, a'i frawd, y Parch. Samuel Price, eydweinidog a Dr. Watts, a'r hyglod Dr. Richard Price o Lundain, a'r Parch. George Cadogan Morgan ac enwogion eraill—pa rai a fuont yn eu dydd yn oleuadau disglaer, ac a adawsant eu hegwyddorion a'u hesiamplau da yn addysg ac yn etifeddiaeth i'w teulu ac i'r byd. Yr oedd ein cyfaill ymadawedig, yn ol mesur ei gyrhaeddiadau a'i amgylchiad, yn meddu ar ran helaeth o ysbryd ei ragflaenoriaid teuluawl, ac yn olynydd teilwng iddynt. Treuliodd lawer o'i amser a llawer o'i gyfoeth hefyd mewn ymdrechiadau i ddwyn ymlaen ei gynlluniau er llesoli y dosparth gweithgar, ac yn enwedig trwy gael gan y llywodraeth i ganiattau *deferred annuities*; h.y., er galluogi gweithwyr ac eraill, yn eu iechyd a'u cryfdwr, i gyfranu hyn a hyn yn flynyddol, er mwyn diogelu tâl cyfattebol yn flynyddol iddynt yn eu henoedran. Llwyddwyd o'r diwedd i gael hyn oddiamgylch. Y mae yn awr yn gyfraith y tir. Ond gyda'i holl gynlluniau, y rhaffyddent bob amser yn golygu lles ei gyddgynion, nid oedd ein cyfaill yn esgeuluus o'i ddyledswydd yn y teulu, yn yr eglwys ac yn y gymydogaeth. Teimlir hiraeth a cholled mawr ar ei ol. Er fod ei nerth a'i iechyd yn methu yn amlwg fwy na blwyddyn yn ol, a'r meddiant yn cynnyddu fel ag oedd y ganaf yn agoshau, etto yr oedd ei ymadawiad oddiwrthym yn bur annisgwyliadwy. Ar y Sul cymmundeb cyntaf yn y flwyddyn, yr oedd ef yn bresennol, ac fel arferol, yn y cyflawniad o'i swydd fel diacon, gallodd, er yn grynedig, ddwyn oddiamgylch i'r cymmunwyr yr elfenau coffadwriaethol am farwolaeth ein Harglwydd. Cyn diwedd y mis yr oedd wedi canu yn iach i'r fuchedd hon.

I.

Dydd Sul, Chwef. y 9fed, yn 61 oed, Mr. Thomas Davies, Blaennantygroes, Cwmbach, yn y Perry-Side, lle yr oedd wedi myned i ddisgwyl cael iechyd o'i glefyd poenus (yr hwn a ddioddefodd yn amyneddgar dros y deunaw mis olaf o'i oes) dan law meddyg medrus yn y lle. Ar y Mercher canlynol eyrchwyd ei gorph marwol gydâ'r train i Aberdar, lle y claddwyd ef yn mynwent y plwyf gydâ'i briod, yr hon sydd wedi bod yn gorwedd yno ys yn agos i 12eg mlynedd. Gadawodd saith o blant i alaru ar ei ol; rhai o'r eyfryw sydd yn ieuane iawn i wynebu ar y byd heb ofal tad na mam; ond y mae yn dda genym ddweud, nid heb fod cyfran o bethau y byd hwn wedi ei barotoi ar gyfer eu cynhaliaeth. Perchid y trancedig yn fawr gan bawb a'i adwaenai, am ef onestrwydd, ei wiriondeb a'i ddiragrithrwydd. Credwn ei fod yn ddieithr hollol i ddymuniadau ac egwyddorion drwg. Mynych y clywsom ef yn dywedyd wrth ei blant ieuangaf, "Dywedwch y gwir, ac ymddygwch yn onest; ac yna yr ydych yn sicr o gael eich parchu gan bawb." Teimla yr eglwys Undodaidd yn y Cwmbach, yn gyffredinol, hiraeth ar ei ôl. Derbyniwyd ef yn aelod yno ar yr un Sabboth a'r diweddar David Jones, hanes am farwolaeth yr hwn sydd i'w weled yn yr YMOFYNYDD am y mis diweddaf.

L.

Chwefror 12, yn dair blwydd a haner oed, Hannah, merch John a Margaret Jones, Cwmcelyn, Llanwenog. Yr oedd yn un o'r plant mwyaf cyflym ei deall a chryf ei hamgyffredion a ddarfu ini erioed adnabod; yr oedd ffraethineb ei hymadroddion yn tynu sylw pawb. Y dydd Gwener canlynol hebryngwyd hi i dŷ ei hir gartref yn mynwent Alltyblacca, lle y gorphwys hyd forau'r codi cyffredinol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Peirch. B. Jones, Saron, a D. Evans, Alltyblacca.

Barddoniaeth.

MYFYRDOD AR DDYDD CALAN, 1862.

Cyrhaeddais oed o ddeugain mlynedd,
Drwy drugaredd mawr fy Nuw,
A dwy arall bron a'u treulio,
Wele eto 'rwyf yn fyw;
Wedi cael drwy gylch fy mywyd
Cyflawn iechyd—beth fwy 'i werth?
Ymborth, gwisgoedd, yn feunyddiol,
Cefais er corffotol nerth.

Pan o'wn faban bach ebychlyd,
Heb fodd symud troed na llaw,
Er gochelyd llwybrau ceimion,
A pheryglon, droion, draw;
Cefais dad a mam i'm meithrin,
Rhag i'm oddef blinion gri,
O'u mynwesau'n llawn gofalwch
A thynerwch ataf fi.

Cefais frodyr a chwiorydd,
A chyfoedion rhydd i'm rhan,
Cyd-drammwyem yr un llwybrau,
Weithiau lawr ac weithiau lan;
O mor siriol y pleserau,
Wrth gyd-chwareu gaem i gyd,
Heb un meddwl rhagolygon
Am ofalon hyn o fyd.

Wrth droi 'nol mae'n enyn ynof
Adgof am y dyddiau gynt.
Pa le mae fy hoff gymdeithion,
A'm cyfoedion hylon hynt ?
Rhai o honynt wedi mudo ;
Rhai yn huno yn y bedd ;
Braidd wynebpryd gynt adwaenwn
Welwn 'nawr yn iach ei wedd.

Rhyfedd ydyw amgylchiadau,
Digwyddiadau sy'n y byd,
Oll yn tarddu 'nol rhagluniad,
A gwir gariad Iôr o hyd !
Colli câr a chyfaill agos,
Sy'n ymddangos weithiau'n groes ;
Deillia'r cyfan a ddaw ini
Er daioni, trwy ein hoes.

Rhagddarbodau trefn Rhagluniaeth,
I'm yn rhan yn helaeth fu ?
Llaw fy Iôr oedd yn fy ngwylied,
Ac yn nodded o bob tu ;
Teimlo 'i nerth 'n f' amgylchynu,
Nes i'm dd'od i fynu 'n ddyn,
O fy mlaen rhoes ddeddfau bywyd,
Er gochelyd gwae a gwŷn.

Wedi cyrhaedd oedran addas,
Stad gyweithias dyn mewn oed,
Daeth i'm rhan gydmares bywyd,
Er dedwyddyd einioes rhoed.
Trwy ewyllys Iôn gogoned,
Ganed ini chwech o blant,
Pump yn awr sy'n fyw mewn hoenwedd,
Rhoddwyd un i'r bedd, oer bant.

Trwy fy ngyrfa hyd yr awrhon
Teimlo'r un tiriondeb têr,
Yn fy nghynal awr ag enyd,
Hyfryd nawdd fy nefol Nêr ;
O fy nghalon rhof fy moliant,
Yn ogoniant i fy Nuw,
Am ei ddoniau yn dymhorol
Ac ysbrydol tra fwy'i byw.

O ddechreu amser yn ddiamau,
Miloedd o flynyddau aeth ;
Trefn rhagluniaeth wedi dirwyn,
Esgor ffwyddyn eto wnaeth ;
Groesaw ! groesaw iddi ddyfod !
Deffry pob cydwybod fyw,
Oll ar gân wirlan oleuni,
Fel ar dân i foli Duw.

Pwy o honom all ymffrostio,
"Gwelaf eto flwyddyn gron,"
Yn gryf ei nerth gan ymfalchio,
Myna 'i threulio drwyddi'n llon ?
Ystyria wael ddyn dy freuolder
Dyw'th wrolder iachus wedd
Ond fel niwl, ac yn diflanu,
F'allai foru yn y bedd.

Einioes dyn sydd yn rhedegol,
Megys gwenol fain y gwŷdd,
Awn ar fyr i arffed dyffryn,
Cyflym dynu 'r ym bob dydd :
Llawer un oedd ddechreu'r flwyddyn
A aeth heibio 'n loew 'i rudd,
Heddyw'n gorphwys yn ddiogel
Yn ei dawel wely pridd.

Rhown ein bryd ar gael y trysor,
Anhepgorol, ddeddfol, ddwys,
Yn ffynonell cysur ynom,
Cyn yr elom dan y gwys ;
Ni fydd braw gwynebu angau,
Pan y del ei oriau ef,
Byddwn barod idd ei alwad,
Dwyfol genad Iôr y nef.

Digwyddiadau'r flwydd aeth heibio
Barodd gwyno 'i wledydd cred,
Gan ryfeloedd blin annedwydd,
Pryd y derfydd pwy a dd'wed ;
Dwyn bywydau meibion gwragedd,
'N gelaneddau miloedd wnaed,
Drwy uchelgais meibion trachwant,
Ymgreulonant yn eu gwaed.

O Dduw ! ymwêl a therfysgwyr,
Aflonyddwyr rhyddid byd,
Mewn ymryson sy'n clodfori
Gan achosi gwae a gwŷd ;
Meddalhâ 'u calonau celyd
Fel y caront wynfyd waith,
A dwyn dy ddelw'n wirioneddol,
Drwy eu ber daearol daith.

Aed Efangyl bur ein Ceidwad
At benaethiaid hyn o fyd,
Fel y dysgont ffyrdd tangnefedd,
Caru rhinwedd o unfryd ;
Aed ei ffrwythau pêr ar gynydd,
Dros holl wledydd daear lawr,
Nes gorchfygu pob ymryson,
O blith dynion, eirian wawr.

Brysied wnelo'r dydd i wawrio,
Pawb yn rhodio law yn llaw,
Neb yn gâs, ond byw'n heddychol,
Mewn brawdoldeb, heb ddim braw ;
Gwên y nef ar bob gwynebpryd,
O mor hyfryd fydd yr awr,
Yn cydnabod holl ddynolryw
'N blant i'r un Duw nefol mawr.

Yn cyd-foli'r unig Benaeth,
Tad yr holl greadigaeth faith,
Teilwng yw o bob ufudd-dod,
Gan bob tafod ym mhob iaith ;
Ymddiriedwn i lywodraeth
Iechydwriaeth ddoeth ein Duw,
Ac ymostwng i'w drefniadau,
'I ymweliadau tra f'om byw.

Aberdar. EIPDIL CYNON.

Y "GOSGO DDYNOL" NEU "YR UFEL CYNGHWRDD."

Y mae cnocelli tyrfau yn casglu dyfroedd gwlaw,
Lle ffrwydria'r ufel gwefrawl llifogydd sydd gerllaw;
Cnocelli "dynol osgo" 'r un fath yn union yw,
Lle ffrwydria'r "ufel cynghwrdd" dylifa dynolryw.

O gnocell y gorllewin fe dasgodd Becca i bant,
Fel dafnau cwmwl gwefrawl ennillodd hono blant,
Nes tryblu cymydd Gwalia gan angerdd nosawl hon.
Yr oedd yn berygl bywyd anturio croesi 'i thòn.

Cyn gloewi o ddyfroedd Becca aeth berwedd yn y pair,
Daeth cnocell eu gwrth-bedion i'w dwyn i wlad yr aur;
Aeth amryw i Ostralia gael eurglamp yn eu côl,
A miloedd i ddim elwach na llefain am ddo'd 'n ol.

A'r dwr heb loewi etto yn iawn o'r eurlif, fe
Ddaeth cnocell y diwygiad gan Hwmffre yn ei le;
Wrth wel'd yr ufel eirias yn ennill mor ddidrai,
Aeth Hwmffre yn bruddglwyfus; hawdd gwybod b'le bu'r bai.

Ynghyd a ffrwydriad Hwmffre daeth cnocell gyda gwawr
Y dwyrain i daranu, ym mherson Spurdsion mawr,
'Roedd arch-esgobion Prydain yn eiddigeddu cyd,
Wrth weled ufel Spurdsion yn *agos* tanio'r byd.

Mewn llefydd heb gysegru pregethwyd maes yn grwn,
Trwy gyngor y *sanctorum* gael efelychu hwn;
Ond 'r oedd yn rhy dawweddar i'r rhain wefreiddio, trwy
Fod ufel Spurdsion wedi rhag-daro ar y nwy.

Aeth pwyll Bereaidd o'r golwg o dan y gnocell hon,
Gan fel 'r oedd dynol osgo bob dydd yn chwyddo'r dòn;
Pob graddau dan ei heffaith ymwasgent wrth yr awr,
I'r llefydd appwyntiedig i wrando Spurdsion mawr.

'Roedd yspryd hwn yn gryfach nag yspryd Hwmffre gynt,
Cynhaliodd a chanlynodd yr ufel yn y gwynt,
Hyd at ddirgymmell offrwm ar allor *Plutus* lawr,
Gael myned trwy docynau i wrando Spurdsion mawr.

Pob math o awel chwythai yr ufel hwn ar led,
I'w effaith ar y cynghwrdd, mae'n anhawdd rhoddi cred;
Rhoe llawer Cymro uniaith ei haner coron lawr
Gael clywed pregeth Seis'naeg o enau Spurdsion mawr.

I ffrwydriad oedd mor nerthol, pwy al'sai fod yn groes?
Fe weithiodd y toccynau fel lefain yn y toes;
Eurbenaduron Prydain "dri-deng-mil" ddaeth i glawr,
Gael codi tŷ a *soffa* i gynnal Spurdsion mawr.

'Roedd anghyfleistra'n peri i rai ddyweud wrth eu hun,
"Os na chawn wel'd ei berson ni fynwn wel'd ei lun;"
Parwydydd ellir weled o'r uchel radd i lawr,
Mewn manau'n addurnedig a darlun Spurdsion mawr.

Y mae'r cymmylau gwefrawl yn ffoi yng nghylch y rhôd,
Mae Becca wedi darfod 'd oes dim ond iddi fod;
Mae'r Tabernacl uchelfri yn orphenedig nawr,
Mae'r ufel wedi oeri ym mherson Spurdsion mawr.

'Dyw hyna ond darluniad o fel mae pethau'n bod,
'Dyw awen a dychymyg i gael na gofyn clod,
Mae'n rhaid i'r gronfa dorri yn rhyw fan arall nawr,
Cyn cael cyffroad tebyg i ffrwydriad Spurdsion mawr.

Mae'r gnocell hon fel ereill yn dangos yn ddidwyll,
Ei bod yn amser bellach i bawb gymeryd pwyll;
Os holir beth yw'r achos bydd llawer llai o rif
Dan lygriad "dynol osgo" yn myned gyda'r llif.

Er claddu y Ddeiana oedd yn Ephesus gynt,
Deiana! pwy debygsai mae 'i etto yn y gwynt;
Deiana mewn rhyw arddull barha ddo'd yn ei hol
Nes megir pwyll a rheswm yng nghell penboethni ffol.

DEWI DAWEL.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.